# ECO'R WYDDFA

Rhif 248 MEDI 1998 Pris 30c

## Anrhydeddu Ffermwr Lleol



Os byddech yn ymweld â chartref Mr a Mrs W. H. Griffith, Llys, Brynrefail byddech yn rhyfeddu o weld yr holl wobrau, tystysgrifau a chwpanau sy'n addurno'r tŷ. Tystio mae'r rhain i'r llwyddiannau mae W. H. Griffith wedi'i cael ar hyd y blynyddoedd yn ei faes arbennig o fagu, bridio, arddangos a beirniadu ceffylau gwedd a thrwm.

Ar 5 Mai eleni derbyniodd anrhydedd arbennig iawn, sef ei ethol yn gymrawd o Gwobrau Cyngor y Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol, sy'n cynrychioli gwledydd Prydain. Anrhydeddwyd ef oherwydd ei waith ym myd y diwydiant amaethyddol.

Derbyniodd eisoes nifer fawr o anrhydeddau — yn 1991 derbyniodd wobr gan y Association of the Royal Agricultural Soceity am ei gyfraniad arbennig gyda ceffylau gwedd. Derbyniodd y wobr hon oddi wrth J. A. C. Giffs, ysgrifennydd Prydeinig y Cyngor Gwobrwyo.

Yn 1984 enillodd gystadleuaeth yn dwyn y teitl Supreme Shire Horse Champion.

Dyma ddywed y Gymdeithas amdano, 'Y mae W. H. Griffiths wedi rhoi gwasanaeth ar hyd ei oes i fagu a bridio ceffylau gwedd gyda llawer o'r rhain yn ennill ledled Prydain a thramor'. Yn 1989 enillodd y Sir Bryner Jones Award fel Cymro a gyfrannodd y mwyaf i ddatblygu a gwella safon ceffylau trwm. Oherwydd ei wybodaeth y mae wedi beirniadu mewn sioeau ym mhob rhan o Brydain yn ogystal â Sioe Frenhinol Cymru.


Bu'n aelod gweithgar o'r Shire Horse Council ac yn aelod o banel beirniaid y Cyngor hyd nes iddo ymddeol yn Nhachwedd 1997.

Nid oes modd rhestru ei orchestion i gyd gan eu bod mor niferus. Ond da yw deall bod y traddodiad o drin ceffylau yn parhau yn y teulu.

## CYMRO'N GYNTAF

### er gwaethaf tactegau'r Saeson

**COLIN JONES o Bontrug oedd yn fuddugol yn Ras yr Wyddfa eleni. Y Cymro cyntaf erioed i ennill mewn 23 mlynedd o gystadlu. Yn ddiarwybod i Colin roedd tactegau tîm Lloegr i sicrhau fod un o'u rhedwyr hwy yn ennill wedi methu yn llwyr, gan adael Ian Holmes, Pencampwr Rhedeg Mynyddoedd Prydain eleni, yn ail siomedig.**



Cyn cychwyn y ras clywodd Colin y si fod dau redwr yn bwriadu ymgiprys am yr amser cyflymaf i'r copa, sef Martin Cox a Richard Findlow. Mae Cox yn ddringwr eithriadol o gyflym ac, yn ôl y disgwyl, y fo oedd y cyntaf i'r copa. Cyrhaeddodd John Brooks o dîm yr Alban, Findlow a Colin y copa bron i funud a hanner yn ddiweddarach. Roedd Findlow wedi ymlâdd a'i ras drosodd. Synhwyrai Colin fod Brooks hefyd wedi blino ond swatiodd yn dynn wrth ei ysgwydd wrth gychwyn i lawr gan adael i hwnnw glirio'r llwybr drwy'r rhedwyr eraill oedd yn dal i ddringo. Yn fuan, disgynnodd Brooks yn ôl gan adael Colin i ymlid Cox. Wrth ddisgyn am Bont y Clogwyn, gallai Colin weld Cox yn agosáu at waelod yr allt, ond roedd o'n rhedeg ar ei sodlau sy'n arwydd amlwg o flinder a diffyg hyder wrth ddisgyn. Wrth ddod at y bont aeth Colin heibio iddo gan hyrddio i lawr am hanner ffordd. Yno mentrodd rhoi cip yn ôl Doedd yr un rhedwr arall i'w weld a gwyddai Colin fod y ras wedi'i hennill. Er hynny roedd yn bwysig cadw'i gyflymder a chanolbwyntio rhag cael cam gwag a difetha'r cyfan.

Ar y ffordd darmac o Ben Ceunant i'r pentref penderfynodd fwynhau'r filltir olaf. Eisoes roedd y dorf o flaen Gwesty Fictoria wedi synhwyro mai rhedwr yn gwisgo crys Cymru oedd ar y blaen a dechreuodd y bonllefau ddiasbedain. Roedd y dorf ar Ddôl y Goeden hefyd wedi cael ar ddeall mai'r Cymro lleol oedd ar y blaen, ond roeddent hefyd yn gallu gweld rhedwyr eraill yn disgyn o Ben Ceunant. Er hynny, roedd amseru Colin yn berffaith ac er gwaethaf ymdrech hwyr Holmes, roedd y Cymro lleol dros hanner munud ar y blaen yn gorffen y ras.

Dywedodd fod y croeso a'r gymeradwyaeth o Westy'r Fictoria i'r diwedd ar Ddôl y Goeden yn anhygoel, ac mai, '. . . *dyma'r teimlad gorau i mi ei gael erioed mewn unrhyw ras. Roedd yn werth cael ennill a chydnabod y dorf; roeddent wedi disgwyl bron i chwarter canrif i Gymro ennill*'.

Yn hwyrach y noson honno y datgelwyd y newyddion am dactegau tîm Lloegr. Honnir fod Cox a Findlow wedi cael eu defnyddio fel sgwarnogod i ymestyn y rhedwyr eraill tua'r copa — a'u blino'n llwyr. Roedd aelodau tîm Lloegr yn ymwybodol o'r dacteg ac yn fwriadol wedi peidio cadw i fyny â'r ddwy sgwrangog. Y bwriad oedd i Ian Holmes fanteisio ar flinder y rhedwyr eraill a'u curo ar y ffordd i lawr. Ond chwalwyd y tactegau gan redeg nerthol Colin. A'r hyn sy'n gwneud ei gamp yn fwy clodwiw yw'r ffaith fod chwech o gyn-enillwyr y ras yn cystadlu yn ei erbyn, ac mai dyma'r tro cyntaf erioed iddo gystadlu yn y ras lawn, er iddo ennill yr adrannau iau tra'n fachgen ysgol.

Bellach mae Colin wedi dychwelyd i Brifysgol Lewis yn Chicago lle mae'n dilyn cwrs gradd mewn cemeg, ac yn cynrychioli ei brifysgol mewn cystadlaethau rhedeg traws-gwlad ac athletau. Yn anffodus ni fydd ar gael i dîm Cymru ar gyfer Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd a gynhelir ar Ynys Reunion ddiwedd Medi.

# ECO'R WYDDFA

**Rhif 248**
**MEDI 1998**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| RHIFYN | DYDDIAD COPI | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â |
|---|---|---|---|---|
| HYDREF | MEDI 21 | HYDREF 1 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans |
| TACHWEDD | HYDREF 19 | HYDREF 29 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans |
| RHAGFYR | TACHWEDD 16 | TACHWEDD 26 | CAEATHRO | Mr Clive James |


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Golygyddol:**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872390**

**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 675649**

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio:**
**ARWEL JONES**
**CAE EBONI, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 871274**

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## Y RHIFYN NESAF

**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, HYDREF 1**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, MEDI 21**
**Os gwelwch yn dda**

# Llythyrau

## Peryglon Gorsafoedd Pŵer Niwcliar

Annwyl Olygydd,

Fel Cymro rwy'n pryderu'n arw am blant Cymru a phlant y wlad i gyd. Ers mis o amser maent yn dweud bod tair gorsaf ynni niwcliar yn gollwng peryg mawr, sef gwastraff niwcliar. Methu â deall yr wyf sut mae swyddogion iechyd yn caniatáu cymaint o ymwelwyr, yn bobl a phlant, fynd i leoedd mor beygl gyda cymaint o bobl ifanc y wlad yn diddef o'r cancr. Yn aml maent yn ymffrostio fod rhai miloedd o ymwelwyr wedi ymweld â'r gorsafoedd hyn. Mi fuaswn i'n cynghori rhieni'r plant i wrthod gadael i'r Awdurdod Addysg fynd â hwy yn agos ar yr un o'r gorsafoedd yma. Fel y profwyd dydi niwcliar yn ddim ond cancr, gant y cant. Felly, chi rhieni plant Cymru, byddwch yn ddoeth a chadwch eich plant cyn belled ag y medrwch oddi wrth y tair gorsaf ynni niwcliar yma. Yn y *Daily Post* ar 23 Awst roedd map o'r Wylfa gan y BNFL gyda'r geiriau: *'Come and see a real nuclear power station'*.

Ydwyf, yn ddiolchgar,
A. WILLIAMS
Nant Peris

## Cymdeithas Owain Glyndŵr

Annwyl Olygydd,

Gyda'r mileniwm ar y gorwel mae'n amser priodol i ni Gymry ystyried sut i ddathlu'r achlysur. Gan mai'r flwyddyn 2000 yw chwechanmlwyddiant gwrthryfel Owain Glyndŵr, pa well ffordd na thrwy goffáu un o arwyr mwya'r genedl.

Sefydlwyd Cymdeithas Owain Glyndŵr yn 1996 a'i phrif amcanion yw:

- i geisio nodi lleoliad bedd Owain Glyndŵr ac i ystyried rhywbryd yn y dyfodol y posibilrwydd o ailgladdu ei weddillion yng Nghymru;
- i godi cofeb gymwys i Owain Glyndŵr mewn man priodol;
- i waddoli coffadwriaeth academaidd i Owain Glyndŵr.

Bwriad y gymdeithas yw codi cofeb i Owain yn Aberystwyth i'w dadorchuddio ar 16 Medi 2000, sef chwechanmlwyddiant ymgyrch Owain. Mae artist wedi'i gomisiynu ac fe fydd ymgyrch i godi arian yn yr hydref. Mae aelodau o'r pwyllgor llywio yn ymchwilio i leoliad bedd Owain. Mae'r gymdeithas yn bwriadu cynnig ysgoloriaeth flynyddol i fyfyriwr neu fyfyrwraig fydd yn cydymffurfio orau â meini prawf y gymdeithas. Byddwn hefyd yn gwasgu ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i goffáu Owain yng nghartref newydd y Cynulliad Cymreig.

Ymgyrchodd Owain am brifysgol ac eglwys annibynnol i Gymru yn ogystal â senedd. Gyda'r Cynulliad Cymreig ar fin agor mae'n amser priodol i ni gydnabod gweledigaeth Owain.

Os bydd eich darllenwyr yn dymuno rhagor o wybodaeth am y gymdeithas, sy'n anwleidyddol ac anenwadol, mae croeso iddynt gysylltu a mi.

Yn gywir iawn,
JILL DAVIES (Ysgrifennydd)
Erw Hir
Llanarthne, Caerfyrddin CA32 8JD
Ffôn/Ffacs: (01558) 668564

## Dathlu Pên-blwydd Arbennig

Annwyl Ddarllenwyr,

Ar Orffennaf 29 eleni fe ddathlodd Mam – Appy – ei phen-blwydd yn 70 oed ac fe benderfynais mai da o beth fyddai dangos fy ngwerthfawrogiad iddi trwy wahodd ynghyd nifer o'i thelu – sydd ar wasgar ar draws y wlad – a nifer o'i chyfeillion i rannu yn y dathliad arbennig hwn.

Y canlyniad fu – fel y gŵyr nifer ohonoch – oedd y parti annisgwyl a gynhaliwyd yng Ngwesty Fictoria. Mawr fu'r dathlu! Braf oedd cael cwmni ffrindiau nad ydym yn eu gweld yn aml – i mi yn arbennig gan fy mod yn byw cryn bellter o Lanbêr.

Roedd o'n brofiad bythgofiadwy i ni y teulu gael dod at ein gilydd i ddathlu achlysur mor hapus yng nghwmni pobl sy'n chwarae rhan mor bwysig ym mywyd Mam. Mae pentref Llanbêr yn enwog am ei charedigrwydd a'i chymwynasgarwch ac fe brofwyd hynny ar ei orau yn ystod yr achlysur hwn. Ni wyddom sut i ddechrau diolch i chi fel cymuned am eich cymwynasgarwch a'ch cyfraniad a ddangoswyd gennych yn ddiweddar.

Mae Mam bellach yn edrych ymlaen – gyda diolch i chi – am wyliau llawn haeddiannol ar Ynys Jersey. Yn 70 oed bydd yn hedfan i'w gwyliau cyntaf yn ei bywyd – beth all fod yn well!

Diolch o galon i chi pobol Llanbêr am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a fu mor werthfawr i ni fel teulu.

Yn gywir iawn,
APPY, EMYR a MEIRA
Sycharth, 8 Woodstock Gardens
Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr

## Gwarchod Cymdogol

Fel rhan o Wythnos Gwarchod Cymdogol Cenedlaetho, a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn diweddu 28 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus mewn tair ardal yn Arfon — Bethel, Rhiwlas a Rhosgadfan. Dewiswyd yr ardaloedd hyn am nad oedd cynllun Gwarchod Cymdogol yn bodoli ynddynt.

Yn ystod y cyfarfodydd cafwyd amlinelliad gan yr Heddwas Alan Bevan, Swyddog Atal Troseddu yng Ngwynedd, o'r troseddau a wnaed yn yr ardaloedd a'r manteision o sefydlu Cynllun Gwarchod Cymdogol. Soniodd yr Heddwas Ian Williams, Swyddog Atal Cyffuriau'r Heddlu yng Ngwynedd, am y gwahanol fathau o gyffuriau a ddefnyddir gan y troseddwyr a'r cysylltiad agos sydd rhwng torcyfraith a dibyniaeth ar gyffuriau.

Gan fod yr heddweision sydd â chyfrifoldeb am blismona'r ardaloedd yn bresennol rhoddwyd cyfle i'r ardalwyr ofyn cwestiynau ac i drafod eu pryderon ynglŷn â throseddu.

Daeth rhwng 50 a 60 o bobl i Neuadd Goffa Bethel ac fe gafwyd 18 o enwau rhai sy'n barod i gynnig eu gwasanaeth fel cysylltwyr. Braidd yn siomedig fu'r nifer a ddaeth i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Rhiwlas — er i blant yr ysgol, trwy garedigrwydd y brifathrawes, ddosbarthu dros 100 o lythyrau — ond o'r wyth oedd yn bresennol cafwyd enw pump i ymgymryd â swydd cysylltydd. Er cyn lleied y nifer ac mai dim ond rhannau yn unig o bentref Rhiwlas fydd â chysylltydd ynddynt — Bro Rhiwen, Hafod Lon a rhan o Caeau Gleision — mae cychwyn ar bopeth a'r gobaith yw y bydd eraill yn barod i gynnig eu gwasanaeth mewn rhannau eraill o'r ardal.

Os am ragor o wybodaeth am y Cynllun Gwarchod Cymdogol cysylltwch â'r Heddwas Alan Bevan ar (01286) 684815.


**BWS BACH AR LOG**



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**

**D. P. OWENS**
**RHIWLAS**
**01248-361044**

# Ymgynnull wrth y Ffowntan

Bydd y rhai sy'n ymweld ag Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, sydd bellach ar ei newydd gwedd, yn gallu mwynhau ymweliad â datblygiad newydd a phwysig arall, sef y caffi newydd 'Y Ffowntan'.

Mae'r Ffowntan wedi'i lleoli mewn adeilad unigryw iawn a bydd y caffi yn cyflwyno amrwiaeth o brydau poeth ac oer, byr-brydau, diodydd a hufen iâ — rhywbeth at ddant pawb.

Meddai Mrs Pat Jones sy'n berchen ac yn rheolwraig ar y caffi newydd: *'Ein bwriad yn Y Ffowntan fydd rhoi blas ar Gymru i'r ymwelwyr. Bydd rhai bwydydd arbennig lleol ac hefyd hen ffefrynnau a'r cyfan wedi'i coginio'n ffres ar y safle.'*

Mae Pat eisoes yn berchen ar siop a chaffi llwyddiannus ym mhentref Llanberis, sef Crefftau Fferm Cae Coch, a bydd yn cyflwyno ambell fwyd a arferai fod yn boblogaidd iawn yn y cymunedau chwarelyddol erstalwm, er enghraifft, bara brith, teisennau cri a chawl. Ond nid dyna'r cwbl sy'n cysylltu'r caffi hynod fodern yma gyda'r gorffennol.

Esboniodd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru: *'Y Ffowntan y galwai chwarelwyr y Gilfach Ddu y boilar dŵr enfawr a fyddai yn y Caban. Roedd y Ffowntan, a'r tân oddi dano yn ganolog i fywyd y Caban, lle roedd y dynion yn cyfarfod i gael paned, trafod materion Undeb neu i ganu ambell gân. Ein gobaith yw y bydd y caffi newydd yn galluogi teuluoedd sy'n ymweld â'r Amgueddfa i deimlo'n gartrefol ac i fwynhau eu hymweliad.'*



Pat Jones a'i staff yn barod i'ch croesawu i Gaffi'r Ffowntan.

## BARGEN!

I ddathlu achlysur ei ben-blwydd yn 21 oed bydd Bara Caws yn ail-lwyfannu 'Bargen' un o gynhyrchiadau cymuned cyntaf y cwmni (1979) a sicrhaodd bod Bara Caws yn ennill ei blwyf ym myd y theatr Gymraeg. Byddwn yn teithio cymunedau Cymru o 15 Medi hyd 17 Hydref, ac yn ymddangos yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ar nos Fawrth, 29 Medi.

Mae'n ddrama ddoniol, treiddgar a thrist sydd wedi ei seilio ar ddiwydiant a ddylanwadodd ar bron bob un ohonom yng Ngwynedd — y chwareli. Darlun o fyd y chwarelwr, byd a oedd yn greulon ar brydiau ond hefyd yn llawn ffraethineb, rhamant a chymeriadau lliwgar.

**MIS BYR!**
**DOES YNA OND**
**10 DIWRNOD**
**TAN DYDDIAD**
**DERBYN DEUNYDD**
**RHIFYN NESAF O'R ECO**
**COPI ERBYN 22 MEDI**
**OS GWELWCH YN DDA**

## Awdur Lleol

Mae'r awdur a'r darlledwr Euron Griffith, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, newydd dderbyn copi o lyfr, *In My Life — the Beatles,* sy'n cynnwys stori fer o'i waith o dan y teitl, *'The Beatles in Tonypandy'.* Cyhoeddwyd y llyfr yn America gan International Publishing Co., New York, ac mae'n cynnwys dros hanner can o straeon amrywion a cherddi gan awduron a beirdd byd-enwog megis Alan Ginsberg a'r diweddar Philip Larkin.

Mae Euron eisoes wedi cyhoeddi nifer o straeon byrion ac erthyglau mewn cylchgronau ym Mhrydain ond dyma'r tro cyntaf i'w waith gael ei gyhoeddi yn America. Enillodd ysgoloriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru y llynedd i'w helpu i gwblhau ei nofel gyntaf sydd â'i chefndir yn Siapan. Mae'n dilyn gwersi yn gyson hefyd i feistroli'r iaith Siapanaeg.

Mae Euron wedi cartrefu yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach ac mae'n gweithio ar ei liwt ei hun fel awdur a darlledwr ac ar hyn o bryd yn cyflwyno'r rhaglen nosweithiol 'Diwrnod i'w Gofio' ar Radio Cymru.

## ANHEDDAU
### Gofal yn y Gymuned

Elusen a reolir yn lleol yw Anheddau Cyf sy'n gweithio gyda pobl leol i geisio gwneud Gofal yn y Gymuned yn realiti. Cyflogwn staff trwy gydol gogledd-orllewin Cymru wedi eu cefnogi gan swyddfa ganolog ym Mangor.

Mae Anheddau Awyr Agored yn rhan arbenigol o Anheddau Cyf; clwb abseilio, dringo a cherdded ydyw sy'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos ar gyfer unigolion â phroblemau iechyd meddwl. I alluogi'r clwb i barhau eu rhaglen mae Anheddau Awyr Agored yn cynnal abseil noddedig i lawr Tŵr y Marcwis, Llanfairpwll, Môn, sydd oddeutu can troedfedd o uchder ac fe fydd yr elw yn mynd tuag at y Clwb. Cynhelir yr abseil ar 10 Hydref sy'n cyd-fynd â Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd i drefnu'r dydd a chadarnhawn fod ein arweinyddion hyfforddedig a phrofiadol wedi cwblhau pob asesiad o'r peryglon a bydd holl gyfarpar diogelwch ar gael ar y dydd.

Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am yr abseil cysylltwch â Mark Sadler ar (01248) 372330.

# Grantiau i Grwpiau Bychain
### Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol

Os ydych yn ymwneud â grŵp gwirfoddol bychan, grŵp cymunedol neu elusen sy'n gweithio yn yr ardal leol, gallai'r **Cynllun Grantiau Bychain** ddarparu rhwng **£500** a **£5,000** i gefnogi eich gwaith.

- ***A ydy eich grŵp wedi ei sefydlu ar gyfer dibenion elusennol?***
- ***Oedd incwm llawn eich grŵp y llynedd yn is na £15,000?***
- ***Allai eich grŵp wario grant o fewn 6 mis i'w dderbyn?***

Gellid defnyddio grant bychan ar gyfer: hyfforddiant, offer, trwsio, digwyddiadau, cyhoeddusrwydd . . . neu pan fyddwch eisiau mynd gam ymhellach.

Os y gellwch roi ateb *cadarnhaol* i'r cwestiynau hyn ffoniwch ein llinell ffôn grantiau bychain **0345 273273** am becyn cais **heddiw**.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yng Nghymru, rydym wedi ymestyn ein **Cynllun Grantiau Bychain** er mwyn i fwy o grwpiau gael ymgeisio a rhoi mwy o amser i'r grwpiau wario'r arian.


Alwyn a Sarah Jones
**RACCA**
**PENISARWAUN**
★ Blodau ar gyfer pob achlysur
hefyd
★ **Dewis da o Lysiau Fferm**
★ **Wyau *Free Range***
Ar agor saith diwrnod



**870605**
**LLYSIAU AR GYFER PICLO**



***Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?***
***Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?***
***Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?***
*Cysylltwch â*
**GORONWY HUGHES**
**Tel/Ffacs (01286) 674839**
**E-Bost gorhug@global.net.uk**
***Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach***






**Uned 1A BRYNAFON**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)**
**FFENESTRI : DRYSAU**
**DODREFN : GRISIAU**
**GWAITH TURNIO**
**BLYCHAU CLOCIAU**
**BLYCHAU DAL OFFERYNNAU**
**BLYCHAU ARDDANGOS**

## CYFNEWID gan Y Gwalch

Ar nos Sul o hydref rai blynyddoedd yn ôl torrodd lladron i mewn i blasdy henafol y White Chase yn Sussex gan ddwyn llestri arian a rhai gemau. Yr oedd ymysg y llestri blât bychan â llun y ganhwyllbren Iddewig wedi'i ysgythru arni. Er fod y perchennog, Mrs Browning, a'i howscipar yno mewn rhan arall o'r tŷ ni chawsant eu tarfu o gwbl. Yn wir, wyddid dim am y lladrad nes i'r bailiff ddarganfod rhai platiau wedi eu gadael ar waelod y lawnt fawr yn y plygain drannoeth. Yr oedd y lladron mae'n amlwg wedi didoli'r ysbail yn y fan honno ar ôl archwilio'r marciau rhag cludo darnau dibris. Yr oeddent yn gwybod yn iawn beth yr oeddent yn ei geisio.

Yr oedd hi'n amlwg hefyd fod ganddynt wybodaeth am gynllun mewnol y tŷ. Yr oeddent wedi cael mynediad trwy dynnu allan un cwarel ddeimwnt o ffenestr y *morning room* ac, i hwyluso eu dihangfa, wedi gosod cadeiriau yn un rhes oddi ar y ffordd. Yr oeddent hefyd wedi torri gorchudd y clustogau i lapio'r llestri rhag creu sŵn, a'r gred oedd nad oeddent wedi dod â'u cerbyn yn agos i'r tŷ. Yr oedd y dystiolaeth yma i gyd yn awgrymu fod y lladrad yn cario crefft-nod rhai oedd yn hyddysg â'r math hwn o gyrch, ac yr oedd Mrs Browning yn naturiol resynu am y golled; yn enwedig ddiflaniad y plât bach Iddewig, am resymau nad oeddent yn amlwg ar y pryd.

Ni roddwyd fawr o gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad fod bynnag. Y tebygrwydd yw na fuaswn i yn gwybod fawr amdano onibai fy mod yng ngwasanaeth yr arglwyddes honno o Quebec a oedd yn gyfeilles a chymdoges Mrs Browning ar draws y Downs. Byddwn yn mynd a hi i White Chase yn achlysurol ar ymweliadau cymdeithasol, a byddai Mrs Browning yn ei thro yn dod acw yn enwedig i'r fête.

Dywedid iddi brynu'r Chase o dan draed gyda chymorth cyfalaf Iddewig. Yr oedd yr adeilad yr adeg honno yn dechrau dangos ei oed ac nid syn hynny. Yn ôl yr hanes yr oedd wedi'i sefydlu gan y Brodyr Gwynion fel abaty. Yn ddiweddarach bu'n gartref i un o wroniaid Elisabeth y Gyntaf a chafodd ei ailwampio yn helaeth yr adeg honno gyda choed llongau ac fe ymestynwyd y simneiau sy'n nodweddiadol o'r cyfnod. Yn nes i'n cyfnod ni, cafodd ei ddifrodi gan belennau gwrthryfel Cromwell a bu'n farics i filwyr mewn rhyfeloedd eraill. Serch hynny roedd y *chatelaine* yn amlwg yn fodlon arno. Yr oedd hi yr adeg honno yn ymylu ar ei chwedegau a rhoddid iddi eirda fel meistres a chyflogwraig trwy dystiolaeth dau arddwr a dynion y fferm a oeddent wedi bod yn ei gwasanaeth ers blynyddoedd. Sylwais innau yn y diwedd fod eu hymddiriedaeth yn yr arglwyddes yn helaeth. Ond yr oedd fy mherthynas innau â hi hefyd yn un gynefin, er mae'n debyg na fuasai wedi adlennu hanes ei chyfeilles i mi onibai am y lladrad.

Yn ystod y tridegau roedd Mrs Browning wedi bod yn brynwr i gwmni Iddewig a ddeliai mewn dillad o uchel radd ac a gadwai siopau yn Llundain a Paris. Yn rhinwedd ei swydd roedd ganddi drwydded i ymweld â gwledydd Ewrop a thu hwnt ac yr oedd yn croesi i'r Almaen yn aml.

Yn y blynyddoedd rheiny roedd y Natsïaid wedi cael rheolaeth ar Berlin ac yn barod i wneud unrhyw weithred anfad ar arch eu harweinydd a'u duw, ac yr oedd Mrs Browning yn sylweddoli fod awyrgylch ysgeler ar led, yn enwedig ar ôl iddi fod mor anffodus a bod yn aros yn y ddinas ar 'noson y gwydrau' fel ei gelwid pan aeth y dihirod yn orffwyll gan ddryllio pob ffenestr a thamaid o wydr yn rhanbarth yr Iddewon gan eu taflu hwy a'u heiddo allan i'r heolydd i gael eu cipio yn ddiweddarach i'r gwersylloedd difodi melltigedig.

O ganlyniad, ffodd rhai a oedd â modd i wneud hynny i'r America a gwledydd llochesgar eraill gan fynd a chymaint fyth o'u heiddo i'w canlyn, ac yr oedd Mrs Browning yn llawn cydymdeimlad â'r anffodusion hynny, ond doedd wiw iddi ddirnad gronyn, ond rhoddwyd cyfle iddi fynegi'r cydymdeimlad hwnnw mewn ffordd ymarferol.

Awgrymodd y cwmni yn Llundain y gallai, o dan glog ei masnach, ddod ag eiddo allan o'r Almaen ar ffurf gemau a dogfennau a oedd yn eiddo i'r gymdeithas Iddewig. Cydsyniodd hithau ac er fod ei hymweliadau â'r Almaen erbyn hynny yn llawn rhyfyg, llwyddodd i gludo gwerth miloedd oddi yno i'r gymdeithas Iddewig. Ond yn y diwedd, yn anochel, gwnaeth lithriad a charcharwyd hi am gyfnod ac onibai ei bod yn ddinesydd Prydeinig gyda pasport, ac nid yn Iddewes yn byw yn yr Almaen, buasai wedi ei chadw yno'n barhaol, ond rhoddwyd hi trwy'r ogor mân.

Croesholwyd hi am oriau gan dri dyn wedi eu tyngu a'u trwytho i wasanaethu y wladwriaeth i lythyren eithaf y llyfr. Ymhen diwrnod neu ddau ymunwyd â hwy gan un arall a oedd yn gorfforol nodweddiadol o'r hen Uhlaniaid gyda'i helmau coryn pigog. Dyn pryd golau talsyth, a'r gwegil tarw yn cyfleu natur didostur. Yr oedd ganddo rhyw osgo o daflu ei ben yn ôl wrth wrando ar atebion Mrs Browning. Cafodd hi'r argraff yn y diwedd ei fod wedi ei alw yno am ei fod yn arbenigwr ar eiddo drudfawr a gemau.

Rhyddhawyd hi yn y diwedd ar yr amod na ddeuai i'r Almaen byth wedyn, ond fforffetiodd yr eiddo. Hebryngwyd hi ar y trên hyd at y goror a ffiniau Gwlad Belg, ac wrth iddi groesi'r wlad honno, ar ôl cael gwared â'i gosgordd, y digwyddodd iddi rywbeth amheuthun.

Â'r trên yn arafu i aros yng ngorsaf Ghent, cipiodd rhyw lodes fechan heibio i sedd Mrs Browning gan wthio parsel bychan, wedi'i lapio mewn papur brown bregus, i'w dwylo ac yna diflannodd ar wib. Yn y parsel roedd plât Iddewig ac er i Mrs Browning gerdded y trên ar ei hyd, ni welodd arlliw o'r plentyn wedyn. Mae'n debyg fod pwy bynnag a'i hanfonodd wedi amseru y cyflwyniad cyn mynd allan o'r trên yn Ghent. Bu'r plât wrth gwrs yn gof-eilun i'w feddianydd byth wedyn.

Ymhen rhyw ddeunaw mis wedi'r lladrad, roeddwn un prynhawn yn cyrchu'r arglwyddes o White Chase yn y Phantom pan ddywedodd yn ei dull didaro:

'Mae gen i syndod i ti, ac efallai ddim. Mi gafodd Mrs B. ymweliad gan yr heddlu.'

'O, be mae hi wedi bod yn 'i neud — dwyn 'falau?'

'Maen nhw wedi dal un o'r lladron — dim llai na phennaeth y gang.'

'Go dda. Ymhle roedd o?'


'Yn Tunis, ond mae o'n cael ei draddodi i'r wlad yma.'

A dyna ddigwyddodd, ond wrth gwrs cymerodd y peirianwaith fisoedd. Pan ddaeth y dydd aeth Mrs Browning i lawr i Lewes i glywed yr achos yn y llys o ran chwilfrydedd yn un peth. Wn i ddim a oedd hi'n lled obeithio hefyd adfer ei heiddo ond wnaeth hi ddim. Yn lle hynny cafodd syndod mawr ei bywyd pan ymddangosodd y diffynydd.

Roedd y dyn, fel hithau, yn hŷn er nad oedd y blynyddoedd wedi treulio cymaint arno nad oedd yn hawdd ei adnabod trwy sylwi ar y pryd a'r gwedd, y gwegil a'r un gosodiad trahaus a fu gan y gŵr hwnnw a fu'n ei chroesholi yn yr Almaen rhyw chwarter canrif ynghynt, ac a oedd, yn ôl pob golwg, yn arbenigwr ar emau.

Bu'r achos gerbron am ddeuddydd. Dyfarnwyd deng mlynedd o garchar yn y diwedd i Klaus Damanske a oedd wedi byw yn Llundain ers tro byd o dan rhyw *alias* a chanddo fusnes gemau yn Hatton Garden. Dywedid wedyn fod yna gyhuddiadau ychwanegol yn ei aros am droseddau yn erbyn dynoliaeth.

Yr oedd yr arglwyddes — a oedd o'r duedd Ffrengig rhamantus — yn mynnu fod y dyn yn gwybod am Mrs Browning a'i lleoliad ac mai cynllunio'r trosedd fel gweithred o ddial a wnaeth. Barn eraill oedd mai cyd-ddigwyddiad pur ydoedd. Nis gwn.



## DRAENOG

**Diwrnod y trip Ysgol Sul oedd hi a'r hen blant wedi dod yn ddigon hen i fynd o gwmpas y parc hamdden eu hunain. Dad a Mam yn crwydro'r lle gan chwilio am rywbeth i basio'r amser. Wedi iddynt gael hen ddigon ar y trên sgrech a'r stondinau candi fflós dyma'r ddau yn sleifio i weld sioe bypedau Sooty a Sweep — yr unig oedolion ar gyfyl y sioe mae'n debyg. Mae'n siŵr mai fel dau byped y byddan nhw'n ymddangos yng Ngharnifal Llanberis y flwyddyn nesaf!**


# Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymerir â shafio gwartheg tew

## Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143

## AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

# 'Un funud fach . . .'

## Y PRIFATHRO

Ar noson braf ym mis Mai eleni roedd Cyfarfod Chwarter yng nghapel Bethlehem, Tal-y-bont. Wedi parcio'r car, cerddais yr hanner canllath i'r capel yng nghwmni'r Dr Tudur Jones. Wyddwn i ddim mai'r sgwrs fer honno ar ochr y fforddfyddai'r olaf a gawn ag ef. Ddiwedd mis Gorffennaf bu farw yn ei gartref ym Mangor a hynny yn gwbl ddisymwth.

Ers hynny ysgrifenwyd llawer am ei gyfraniad cyfoethog i'r eglwysi ac i Gymru. Duw yn unig sy'n gwybod maint dylanwad y pregethau a'r darlithiau; y llyfrau a'r erthyglau; y sgyrsiau a'r llythyrau y bu i filoedd o bobl eu gwerthfawrogi dros y blynyddoedd.

Bu Dr Tudur yn pregethu i gynulleidfaoedd mawr mewn capeli llawn lawer tro, hyd yn oed y blynyddoedd diwethaf yma, mewn cymanfaoedd pregethu, ac oedfaon ordeinio neu sefydlu gweinidog. Ond mae pobl y fro hon yn gwybod cystal â neb nad dyn y capeli llawn yn unig ydoedd. Rhoddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth, Sul ar ôl Sul, i eglwysi bychain yr ardal. Cawsom ninnau'r fraint o glywed un o bregethwyr mwyaf y ganrif, un o wŷr disgleiriaf ei genedl a'i genhedlaeth, yn cyhoeddi'r Newyddion Da yn ein plith.

Un o'r pethau a gofiaf am y cyfnod a gefais dan ei ofal yng Ngholeg Bala Bangor yw'r gefnogaeth a roddodd i'r cyfarfodydd wythnosol a gynhelid yma yn Llanberis gan griw ohonom o Gristnogion ifanc. Deuai Dr Tudur atom yn rheolaidd i arwain oedfa, a ninnau yn gwerthfawrogi'n fawr ei gymorth. Ni wnaeth erioed fusnesu â'n trefniadau mewn unrhyw ffordd, ond gwyddem y gallem ddibynnu arno bob amser am gyngor ac arweiniad.

Mae bwlch enfawr wedi ei adael yn ein heglwysi a'n gwlad. Ar ran y cannoedd o ddarllenwyr yr Eco fu dan weinidogaeth y Prifathro yng nghapeli'r fro a gaf fi estyn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Mrs Gwenllian Jones, a'r holl deulu.

Diolch i Dduw am ei fywyd a'i weinidogaeth.

JOHN PRITCHARD

# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mr David John Thomas, 8 Maes Eilian gynt, yn Ysbyty Eryri. Hyderwn y bydd yn cael gwellhad llwyr a buan fel y caiff ddychwelyd i'w gartref ym Mhlas Pengwaith, Llanberis.

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf a phob dymuniad da am lwyr iachad i'r canlynol sydd erbyn hyn wedi cael dod adref o'r ysbyty: Mrs Betty Jones, Tan-y-buarth adref wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir adref wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian adref wedi triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd; Mr Glyn Sinclair, 4 Maes Eilian adref wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ond sydd yn gormod ymweld ag ysbyty yn Lerpwl am ragor o driniaeth. Brysiwch wella i gyd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn. Roeddent yn gysur mawr iddi tra yn Ysbyty Glan Clwyd ac wedi dod gartref. Llawer o ddiolch i'r meddygon a gweinyddesau Ward 6, Glan Clwyd; i feddygon a gweinyddesau Llanberis am eu gofal tyner. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

GENEDIGAETH. Yn Ysbyty Gwynedd ar 27 Mehefin, ganwyd Miriam Catherine Louisa, merch fach i Mr a Mrs Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis, a chwaer fach i'w brodyr a'i chwiorydd. Llongyfarchiadau iddynt a phob bendith iechyd a hapusrwydd i'r blynyddoedd a ddêl.

LLONGYFARCHIADAU. Ymfalchïwn o weld un o blant yr ardal, sef y Parchg Idris Thomas, Trefor, mab hynaf Mrs Alice Thomas a'r diweddar Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, yn cael ei anrhydeddu yng Ngorsedd y Beirdd yn Eisteddfod Bro Ogwr eleni. Llongyfarchiadau Idris.

DIOLCH. Hoffai Mrs Betty Jones, Tan-y-buarth Uchaf ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a'i chydweithwyr yn Llanberis am yr holl gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddi ddod gartref. Diolch arbennig i staff Ward Conwy am eu gofal. Diolch i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis ddiolch i bawb o'r teulu ac i'r ardalwyr oll am eu dymuniadau da a'r anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth Miriam. Diolch i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhelri cyfarfod o garedigion y Gymdeithas yn y Ganolfan, 16 Medi am 6.30 p.m. i gael trefnu ar gyfer tymor 1998-99. Gobeithio y cawn yr un llwyddiant ac a gafwyd y llynedd. Bydd y manylion yn dilyn yn y rhifynnau nesaf o'r Eco.

OEDFAON. Yn ystod mis Awst mae'n arferol, ers rhai blynyddoedd bellach, gan Eglwysi Sardis ac Eglwys yr M.C. i uno ar y Suliau. Eleni cafwyd dwy oedfa yn Sardis o dan ofal y Parchg Gwynfor Williams a Mr Huw Williams, Penrhos-garnedd. Cafwyd tair oedfa yn Eglwys M.C. o dan ofal y Parchg Harri Parri, Mr Norman Closs Parry, Bagillt, a Mrs Mair Bowen, Llanfairfechan.

Unwaith eto braf oedd cael estyn croeso i'w gartref yn y Fachwen i Norman ac fel un o blant Capel Fachwen gynt, ac yn un sydd â chariad at fro ei febyd — dyma nefoedd Norman. Yn yr un oedfa, braf iawn oedd cael croesawu adref ddau arall o blant yr ardal, sef y Parchg William John Lewis, Hafod-y-braich gynt; ac Ann Price, Tan-y-bwlch gynt. Yn y gwasanaeth a gynhaliwyd yn Sardis croesawyd un arall o blant yr ardal, sef Mrs Kathleen Jones, Ivy Cottage gynt. Braf oedd cael sôn am yr hen amseroedd gyda hwynt wedi'r oedfaon. Gobeithio i chwi oll dderbyn bendith ac y cawn eich gweld yn fuan iawn eto yn ymuno â ni yn yr oedfa. Diolch i chwi am droi i mewn atom.


MAE
SHARON VAUGHAN WILLIAMS
B.A. (Anrh.) Dip Perf
YN CYMRYD DISGYBLION
AM WERSI PIANO, CANU
A THEORI.
Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR
Ffôn: (01248) 353746



Cefnogwch ein Hysbysebwyr


Colofn CWYSI gan Nesta Griffiths 01286 830459

## AMAETH 2000

Ddydd Gwener, 18 Medi 1998, cynhelir ffair amaethyddol arbennig iawn ar gyfer gogledd Cymru gyfan yng Ngholeg Meirion-Dwyfor yng Nghlyn-llifon. Bydd AMAETH 2000 yn edrych tua'r dyfodol gan amlinellu cyfleoedd creu incwm a chyfleoedd arbed costau i deuluoedd fferm. Trefnir y digwyddiad ar y cyd rhwng cynllun CWYSI, Menter a Busnes a Choleg Meirion-Dwyfor.

Bydd arddangosfeydd a gweithgareddau'r dydd yn ceisio ateb nifer fawr o gwestiynau o dan y penawdau canlynol: bwyd a chynnyrch; ymchwil a datblygu; addysg a gwybodaeth; cadwraeth a'r amgylchedd; twristiaeth fferm a thechnoleg gwybodaeth.

Bydd y diwrnod yn cychwyn am 1 p.m. gyda Mr Dafydd Wigley, AS, yn agor AMAETH 2000 yn swyddogol am 2 p.m.

Yn ystod y dydd bydd gwahanol arddangosfeydd yn cymryd lle, e.e. coginio, cŵn Cymreig wrth eu gwaith, codi wal gerrig, ffensio, llosgi golosg, sganio braster cefn, tagio electronig, diogelu offer fferm, a gweithgareddau ym Melin Goed y Coleg. Yn ogystal bydd cyfle i weld nifer o grefftwyr wrth eu gwaith ac yn arddangos eu cynnyrch.

Bwriedir codi sied o fyrnau gwellt er mwyn dangos beth sy'n bosibl ei wneud gyda defnyddiau sydd ar gael ar y fferm gan bwysleisio yr ochr amgylcheddol.

Bydd lluniaeth ar gael drwy'r dydd wedi'i ddarparu gan Fudiad y Ffermwyr Ieuainc a Chig Cynfal. Gyda'r nos ceir barbeciw o gigoedd Cymreig o dan ofal Cwmni Bwydlyn gyda bar gan Dafarn y Mownt, Llanwnda o 7 p.m. tan 9 p.m.

O gofio'r holl rwystrau sydd wedi amharu ar amaethyddiaeth yng Nghymru yn ddiweddar, dyma gyfle i ystyried cyfleoedd newydd i edrych yn bositif tua'r dyfodol.

Bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl yn AMAETH 2000 ac edrychwn ymlaen am ddiwrnod difyr a llwyddiannus yn eich cwmni.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Nest Griffiths, Cysylltydd CWYSI yn Arfon ar (01286) 830459.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr



IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am
ddanfon archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

# CHWILOTA

## GWERTHU'R FACHWEN
### Problemau'r Tenant

**Gwerthwyd fferm y Fachwen i'r Faenol yn ystod Mehefin 1840 am £13,500. Roedd yn fferm dros 300 acer ar y pryd, ond fe'i rhannwyd yn fân dyddynnod gan Assheton Smith a'u gosod i'w chwarelwyr. Mae cofnodion ar gael yn dyddio o 1846 ac 1847 sy'n dangos fod tenant gwreiddiol y Fachwen wedi cael cryn golled oherwydd y newid mewn landlord.**

Erbyn 1846 roedd Evan Williams yn byw yn Nhai Isa, Pentir; ond mae'n ymddangos mai un o deulu fferm y Fachwen ydoedd yn wreiddiol; o linach Maurice neu Morris Williams. William Morris a Hugh Morris oedd y ddau fab a rannodd dŷ'r Fachwen yn ddau — y Gegin a'r Neuadd — ond roedd hyn eisoes wedi digwydd tua diwedd y ddeunawfed ganrif.

Ar y seithfed o Dachwedd 1846 mae Evan Williams yn ysgrifennu at yr Arglwydd Newborough yn honni iddo gael colled ariannol oherwydd gwerthiant i'r Faenol. Meddai yn y llythyr; *'I jointly with my father and my ancestors have long been tenants of Fachwen'*. Mae'n honni fod tua 100 acer o dir comin yn perthyn i'r Fachwen, gyda tŷ arno a adeiladwyd gan John Williams. Prisiwyd y tŷ gan Griffith Ellis, Asiant y Chwarel, ac fe'i prynwyd am y swm o £33.10s.0d. Cafodd y tir comin ei gau allan gan wal gerrig dda a adeiladwyd ar gost o £62.10s.0d. Digwyddodd hyn i gyd cyn i'r Arglwydd Newborough werthu'r Fachwen i Assheton Smith.

Mae Evan Williams ymhellach yn honni fod Assheton Smith, o fewn ychydig flynyddoedd i bryniant y Fachwen, wedi hawlio'r fferm oddi arno, a'i symud i Dai Isa, Pentir, er mwyn i'r Fachwen, *'. . . be allocated to his quarrymen'*. Yn ddiweddarach gwerthwyd Tai Isa, Pentir i'r Arglwydd Pennant o Stâd y Penrhyn, ac felly o fewn ychydig flynyddoedd roedd Evan Williams wedi dod yn denant ar ddwy fferm a thri landlord. Ond â ymlaen i ddweud fod Pennant hefyd wedi ei drin yn annheg ac wedi gwerthu hanner fferm Tai Isa i J. G. Jones, Pentir Hall, *'. . . and consequently I have lost nearly all; having just 27 acres left'*.

Felly, mewn cwta chwe mlynedd, roedd Evan Williams wedi colli tenantiaeth y Fachwen (300 acer) pan werthodd Arglwydd Newborough y tir i'r Faenol, ac yna Assheton Smith yn ei symud i Dai Isa. Gwerthwyd Tai Isa i'r Penrhyn, ac yna collodd hanner y denantiaeth honno hefyd pan werthwyd hi i Pentir Hall.

Mae Evan Williams yn diweddu ei lythyr trwy ofyn i'r Arglwydd Newborough am iawndal oherwydd ei golled wreiddiol: *'. . . I beg to inform you that when you sold Fachwen Farm, you must have forgot my claim for £96, as I am a loser to that amount'*. Hynny yw, y cyfan y mae Evan Williams yn gofyn amdano yw'r arian a wariodd ar gau allan y 100 acer o dir comin a phryniant y tŷ oedd ynghlwm ag ef. Sylwer nad yw'n hawlio dim am golli tenantiaeth y Fachwen.

Mae'n amlwg iddo dderbyn llythyr yn ôl gan yr Arglwydd Newborough yn gwrthod talu — er nad yw'r llythyr hwnnw ar gael. Yn ystod Ionawr 1847 mae Evan Williams yn ysgrifennu eto at yr Arglwydd Newborough, ac yn dyfynnu o'r atebiad a dderbyniodd: *'. . . You said "that I ought to apply sooner before Fachwen was sold, and during the lifetime of my father".'* Mae Evan Williams yn honni ei fod wedi siarad â'r Arglwydd Newborough yng Nghaernarfon ddwy flynedd cyn y gwerthiant, i'w holi ynglŷn â'r sibrydion fod y Fachwen yn mynd i gael ei gwerthu. A beth oedd ateb yr Arglwydd Newborough? Yn ôl Evan Williams, *'. . . you said you had no such intention, and you desired a Gentleman, then in your company, to tell me so in Welsh'*.

Yn syth wedi'r gwerthiant, ysgrifennodd Evan Williams at yr Arglwydd Newborough yn holi ynglŷn â, *'. . . cost of enclosure — to which I received no reply'*. Mae hefyd yn honni fod y wal gerrig a adeiladwyd ganddo i gau allan y tir comin wedi ei chodi, *'. . . at your Lordship's desire, in order to prevent the Quarrymen from cutting turfs'*.

Evan Williams druan. Gwario bron i ganpunt o'i arian ei hun i hawlio tir comin i'r Arglwydd Newborough am fod hwnnw am wahardd chwarelwyr o'i dir. A'r cyfan yn cael ei werthu i'r Faenol yn ddiweddarach er mwyn i Assheton Smith gael rhannu'r fferm yn dyddynnod ar gyfer yr union chwarelwyr hynny!

## MERCHED HEINI O'R GORFFENNOL



Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Mary Alltwen, Betty Morris, Nansi Patricia, Nansi Eva Owen, Beryl Tudor Owen, (?).
Ail res: (?), Morfudd Roberts, (?), Brenda Prichard, Moreen Parry, Ceinwen, Nora Thomas, Heulwen Evans.
Rhes flaen: Sarah, Bethan Rees, Vera Parry, Miss Mary Parry, Nansi Jones, Eunice, (?)
Eistedd yn y blaen: Marion, Alice Peris, Nancy Edwina, (?).

Yma gwelir criw o ferched Ymarfer Corff Ysgol Brynrefail o dan ofal eu hathrawes, Miss Mary Parry (Mrs Mary Vaughan Jones). 'Sgwn i ydi'r genod yn dal mor heini a'u hathrawes erbyn heddiw? Oes unrhyw un wnaiff feiddio ateb?!

Ar gefn y llun fe ysgrifennwyd, yn Saesneg: *'Members of a PT Display at Brynrefail Grammar School, near Llanberis, 1946'*.

Mae rhai o'r darllenwyr yn rhy ifanc i gofio PT, sef 'Physical Training' ac yn adnabod y pwnc fel PE (Physical Education) neu AG (Addysg Gorfforol). Pa bryd yn hollol tybed y newidiwyd yr enw?

Nid yw'r holl enwau ar gael, felly, dyma apêl am weddill yr enwau ac am unrhyw atgofion gan aelodau'r tîm o'r amser hwn yn Ysgol Brynrefail.

## GIÂT DDIDDOROL YN Y CWM




Dyma giât ddiddorol a welais yng Nghwm-y-glo. Mae'r llythrennau 'J.O.' a'r rhifau '1853' yn rhan amlwg ohoni. A oes rhywun o ddarllenwyr yr *Eco* yn gwybod rhywbeth o hanes y giât hynod hon? A oes yna giatiau eraill tebyg yn yr ardal? Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes lleol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.


GRŴP CODI ARIAN AT WARD ALAW
YSBYTY GWYNEDD

**Noson Prisio Creiriau hen a gwerthfawr**

gan David Rogers Jones ac Esme Dyson
ym Mynydd Gwefru Llanberis
*(gyda chaniatâd caredig First Hydro)*

Nos Wener, 11 Medi am 7 o'r gloch
Mynediad: £1 + £1 am bob crair a brisir

RAFFL :: ARWERTHIANT :: TE A CHOFFI AR WERTH
BYDD SIOP YR ORIEL AR AGOR

# ANTURIO YMLAEN




*Golygydd Chwaraeon yr Eco yn cyflwyno siec i Swyddogion Antur Waunfawr.*

Wedi talu'r costau gwnaed elw o £50 o gystadleuaeth Tarian yr Eco eleni. Ceir adroddiad am y gystadleuaeth ar y dudalen chwaraeon. Fel y llynedd cyfrannwyd yr elw at achos lleol. Y tro hwn rhoddwyd yr arian at brosiect diweddaraf Antur Waunfawr. Mae'r Antur ar hyn o bryd yn addasu hen dŷ capel Waunfawr, sydd y drws nesaf i brif safle yr Antur. Wedi'i gwblhau bydd cryn ddefnydd o'r adeilad. Bydd yn fan cychwyn i ymwelwyr ar eu taith drwy diroedd yr Antur. Bydd gwybodaeth ar gael am gefndir a thiroedd yr Antur, yn enwedig y llysiau a'r bywyd naturiol. Bydd ystafell yno ar gyfer cyfrifiaduron, fydd yn galluogi pobl i gysylltu â'r rhyngrwyd.

Un o brif atyniadau'r adeilad fydd amgueddfa John Evans. Bwriedir cwblhau'r gwaith erbyn y flwyddyn nesaf er mwyn nodi 200 mlwyddiant marwolaeth John Evans gan ddadorchuddio cofeb ar fur yr adeilad. Pwy oedd John Evans? Yn enedigol o'r Waun roedd yn hannu o deulu crefyddol Hafod y Rhug. Roedd gan y teulu gysylltiad clós â Howell Harris ac wedi sefydlu'r Achos yn y Waun, daeth tad a brawd John Evans yn wedinidogion ar y 'Gymdeithas' oedd yn cyfarfod yn y capel.

Yr oedd gwaed yr anturiaethwr — priodol iawn — yn ei wythiennau a than nawdd cymdeithas gefnog Cymry Llundain fe aeth i chwilio am yr hudolus lwyth o Indiaid Cymraeg a drigai, yn honedig, ar lannau y Missouri. Y rhain, yn ôl y gwybodusion oedd disgynyddion y Tywysog Madog. Yn naturiol, roedd elfen genhadol hefyd i daith John Evans. Yn ystod 1796-97 roedd yn byw gyda llwyth y Mondans. Ar y pryd roedd y Mondans dan sawdl y Canadiaid a ymlwybrodd i'r De. Tynnodd John Evans faner Jac yr Undeb i'r llawr a gwadu hawl y Canadiaid i'r tiriogaeth. ers y dyddiau hynny mae Gogledd Dakota wedi bod yn rhan o UDA. Ni ddarganfuwyd yr Indiaid Cymreig ond cynhyrchodd John Evans fapiau o safon uchel iawn. Bu'r rhain yn amhrisiadwy i Lewis a Clark a lwyddodd i groesi'r paith a chyrraedd y Môr Tawel ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Bu farw John Evans yn New Orleans yn 29 oed.

Bydd tipyn o ddigwyddiadau yn gysylltiedig âr dathlu a'r agoriad swyddogol. Ddiwedd Chwefror ceir perfformiad cyntaf o ddrama Gareth Miles sy'n seiliedig ar hanes John Evans. Wedi'r 'noson gyntaf' bydd cwmni Dalier Sylw yn teithio Cymru gyda'r ddrama. O Fawrth 1af hyd mis Awst bydd Gŵyl John Evans. Bydd yr Ŵyl hon yn frith o ddigwyddiadau. Mae'n siŵr y bydd mwy o sylw yn yr Eco am y digwyddiadau hynny yn nes at y dyddiad. Gobeithio bydd ein rhodd fach ni nid yn unig yn gymorth ond yn symbyliad i eraill i gyfrannu at goffrau un arall o gewri'r ardal a fu brokn iawn â mynd i ddifancoll.


**_Noson o Adloniant gan SAIN_**

**_yn_**

**_Theatr Gogledd Cymru, Llandudno_**

**_nos Sul, 1 Tachwedd 1998_**

**_am 7.30 p.m._**

**DAFYDD DU**

**yn cyflwyno**

**BRYN FÔN a'r BAND**

**IWCS a'r BAND**

**AP TED a'r APOSTOLION**

**Tocynnau £6.50**

**Ffoniwch y Theatr (01492) 872000**

**Sain (01286) 831111**

**Trefnir bysus rhad — FFONIWCH SAIN**


## Symud Ymlaen i gael Canolfan

**Cynhaliwyd cyfarfod positif iawn yn Sefydliad Coffa Llanrug ym mis Awst i drafod y syniadau diweddaraf i adnewyddu'r adeilad er mwyn creu Canolfan Gymunedol i'r pentref.**

Cafodd y pwyllgor a'r cyhoedd gyfle i astudio cynlluniau cwmni PenSel i addasu ac ymestyn yr adeilad, gan gynnwys mynedfa addas ar gyfer yr anabl ac ystafell o faintioli y gellid cynnal amrywiaeth o weithgareddau.

Yn sgîl y penderfyniad i beidio a symud ymlaen i adeiladu canolfan o'r newydd yn y pentref oddeutu dwy flynedd yn ôl, penderfynwyd canolbwyntio ar addasu'r adeilad presennol — y Sefydliad Coffa.

Aed ati i ymgynghori â'r mudiadau a chymdeithasau lleol ynglŷn ag anghenion y gymuned. Yna, ym mis Mawrth eleni, anfonwyd holiaduron i gartrefi ardal Llanrug i roi cyfle i'r pentrefwyr leisio'u barn am yr adnoddau yr hoffent eu gweld yn y Sefydliad.

Dadansoddwyd yr atebion a dderbyniwyd i'r holiadur ac mae'n amlwg fod yna alw am ystod eang o weithgareddau yn y pentref; ail-leoli clwb ieuenctid, creu man cyfarfod i'r henoed, darparu offer cyfrifiadurol a hyfforddiant ar y defnydd ohonynt, gweithgareddau addysgol, nosweithiau cwis, dosbarthiadau cadw'n heini, ac yn y blaen. Cred y pwyllgor fod angen canolfan ar y pentref sydd ar agor trwy gydol y flwyddyn i ateb gofynion y gymuned gyfan boen hen neu ifanc.

Mae'r pwyllgor ar hyn o bryd yn llunio cais am grant o ffynhonnell Cronfa Mileniwm y Loteri Genedlaethol i wireddu'r cynlluniau ar gyfer y Sefydliad Coffa, cais sydd i'w gofrestru cyn diwedd mis Medi. Os bydd yr ymgais yn llwyddiannus bydd yr arian yn ffurfio canran sylweddol o'r swm sydd ei angen i gwblhau'r gwelliannau. Mae'n rhaid i'r gymuned ei hun godi'r gweddill ac i'r perwyl yma mae nifer o weithgareddau cymdeithasol yn cael eu trefnu yn y misoedd i ddod er mwyn chwyddo'r coffrau.

Bydd pwyllgor y Sefydliad yn cyfarfod eto **nos Lun, 21 Medi am 7 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa.** Mae croeso i unrhyw un o'r pentref i fynychu'r cyfarfod i leisio barn, i drafod y cynlluniau neu i gyfrannu'n ariannol neu'n ymarferol. Os am ragor o wybodaeth gellir cysylltu â Rhian Hughes, 15 Nant y Glyn (01286) 674662.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# O SIAMBAR SELWYN

**Mae pob eisteddfod yn gofiadwy. Ambell un am y tywydd a gafwyd. Eraill am i ni gael awdl neu bryddest arbennig, neu englyn sy'n mynnu cael ei argraffu ar y cof. Neu am gyfrol o ryddiaith.**

Fe gofir am eisteddfod Aberteifi 1976 am y ddwy awdl a gafwyd ar y testun 'Gwanwyn' ac am y 'storom Awst' a gafwyd pan ddarganfuwyd fod un o'r beirdd teilwng wedi torri amod. Ond fe gafwyd yn 1976 ddwy awdl cwbwl deilwng. Eleni doedd yr un awdl yn deilwng o gadair ein prifwyl. Eto fe gofir am yr amgylchiad gan i'r Archdderwydd gyhoeddi ar awr y siom y byddai'r gadair wag yn cael cartref yn siambr y Cynulliad. Doedd yr un bardd yn deilwng eleni, ond nid 'cadair wag — cadair Ogwr'.

Bu bron i'r eisteddfod fod yr un mor enwog ag Eisteddfod Abergwaun 1986 ac Ystradgynlais 1954 drwy fod yn Eisteddfwd. Oedd, roedd pethau yn ddrwg iawn ddydd Llun — ond diolch i'r drefn fe ddaeth haul ar fryn.

Ydi, mae rhywun yn dueddol o gofio'r tywydd a gafwyd yn ein prifwyliau — llwch Aberteifi, 1976; mwd Abergwaun ddeng mlynedd yn ddiweddarac; a gwres anioddefol Abergele, 1995.

Mi gofia i am ŵyl Bro Ogwr eleni am reswm arall hefyd. Dyma'r tro cynta i mi fynd i'r 'Steddfod am wythnos efo bŷs. Oedd, roedd hi'n bosib mynd felly eleni gan nad oedd gen i ddim cyfrifoldeb o gwbwl i fynd i brilims yn gynnar yn y bore. Ond eto, gan nad oedd y bŷs yn cyrraedd y maes tan tua deg, mid benderfynais fanteisio ar garedigrwydd cyfaill a chychwyn o Gaerdydd am faes yr eisteddfod am saith y bore. Roedd o'n deimlad rhyfedd gweld maes yr eisteddfod yn wag.

Llawenydd i ni ym mro'r Eco ac yn enwedig i blwyfolion Llanddeiniolen oedd llwyddiant Eurig Wyn yn cipio'r fedal rhyddiaith. Oedd, roedd o wedi bod yn agos sawl tro. 'Aml gnoc a dyrr y garreg.' Mi ges i'r fraint o roi cadair neu ddwy iddo mewn eisteddfodau lleolo ac mi gafodd yntau y fraint o roi fy llun i yn *Lol* unwaith, ia, yn borcyn — ar wahân i'r goron genedlaethol yn cuddio rhan arbenning o'm corff. Mi rois wobr iddo yn eisteddfod Cefn y Waun am adrodd pan oedd o'n hogyn bach diniwed erstalwm. Pedwerydd oedd o (fel Sam) a dim ond pedwar oedd yn cystadlu! Mi ddois i ar draws y penillion cyfarch a wnes i iddo pan enillodd o gadair eisteddfod Carmel rai blynyddoedd yn ôl:

Pan fyddai'n hen a pharchus
A gwallt fy mhen yn wyn,
Mi hoffwn gasglu sgandals
'Run fath ag Eurig Wyn,
Mi garwn sgwennu cerddi
I ennill clod a bri,
Wrth fyned 'Dros Ben Llestri'
Ar raglenni'r BBC.

Pan oedd o'n lwmp o swildod
Yng Nghefn y Waun ers tro,
Mi roddais iddo wobr
Yn wir — am adrodd — do.
Fel Sam, pedwerydd oedd o
Yn Steddfod fach y Llan,
Pedwar oedd yn cystadlu
Mewn cystadleuaeth wan.

Ond rhaid bod yn ofalus
Rhaid i mi barchu'r gŵr,
Mae hwn a'i glust am sgandal
A gall hwn godi stŵr;
Ni fynnaf weled eto
Fy llun rhwng cloriau *Lol*
A'r Goron Genedlaethol
Yn cuddio 'motwm bol.

Ond Eurig, gyfaill annwyl,
Rwy'n teimlo'n eitha balch
O ganfod fod y gadair
Yn eiddo i ti — y gwalch,
A plîs, ga'i weled eto
Fy llun rhwng cloriau *Lol*
A'r goron ar fy nghorun
Nid ar fy motwm bol?

Cofion annwyl am ei dad hefyd — y diweddar Barchedig J. Price Wynne — a fu'n weinidog ar eglwys Cefn y Waun am flynyddoedd ac yn aelod ffyddlon a gweithgar ar Gyngor Cymuned Llanddeinolen am gyfnod. Pob llwyddiant i'r dyfodol, Eurig.

Profiad hapus iawn i mi oedd cael bod yn yr Orsedd fore Gwener i groesawu yr hen gyfaill Dafydd Glyn o Gricieth. Er mor brysur ydi cefn y llwyfan mae o'n wag os nad ydi Dafydd Glyn yno. Bu'n stiwardio yn y Genedlaethol ers i'r ŵyl fod ar ei stepan drws yng Nghricieth yn 1975. Bu hefyd yn flaenllaw gyda llu o weithgareddau amrywiol yn ei ardal.

Anghofia i byth ei gwmnïaeth yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy, 1989. Roedd o'n rhannu gwesty hefo fi ac roedd o'n ofalus iawn ohonai. Mae'n wir i mi fynd drwy seremoni liwgar a chofiadwy ar y prynhawn Mawrth hwnnw. Ond doedd seremoni draddodiadol yr Orsedd o flaen y miloedd yn ddim i'r coroni a ddaeth i'm rhan nos Iau yr ŵyl, mewn pabell enfawr ar gyrion Llanrwst, ar achlysur swper blynyddol stiwardiaid yr Eisteddfod.

Rhaid oedd i mi fynd. Ac i dynnu coes Dafydd Glyn fe ddwedais na fyddwn i'n mynd ar gyfyl y lle onibai fod carped coch ar lawr i'm disgwyl.

Feddyliais i erioed y byddai 'na un — ond pan gyrhaeddais y babell wledda roedd 'na garped coch yno — un hir a thrwchus. Peidiwch gofyn i mi o ble ddaeth o, ond mae gen i syniad go dda pwy fu'n gyfrifol, sef yr un brawd a fu'n gyfrifol am fy nghoroni yn ddiweddarach y noson honno o dan frwsh llawr anferth yn hytrach na'r cleddyf traddodiadol. A wyddoch chi be — mi wnes i fwynhau y seremoni hwyrol honno yn well na seremoni swyddogol brynhawn Mawrth!

Ydi, mae pob Steddfod yn gofiadwy — boed am y tywydd neu am gynnyrch arbennig — ac am gael y cyfle i gyfarfod â hen ffrindiau a dod i adnabod ambell gymeriad fel Dafydd Glyn. Bu hon yn flwyddyn fawr iddo fo ac i Eurig Wyn ac mae gan y ddau gysylltiad agos â bro'r Eco.

Wel, Ynys Môn y flwyddyn nesa. Lle arhosa i? Pan oedd y Steddfod ym Mangor yn 1971 mi arhosais i a nifer o fy ffrindiau yn Nhafarn y Gors Bach, ond roeddwn i'n ifanc y pryd hynny. A i Ynys Môn ar y bŷs tybed? Wel, o bosib hefo beic. Os byw ac iach, ynte.

## DRAENOG


***(I'w chanu ar alaw gyfarwydd)***

**Mae gen i ffrind bach yn byw yng Nghaeathro**
**Chwi wyddoch oll ei enw ef;**
**Tro dwetha yr es i**
**I gnocio ar ddrws ei dŷ**
**Daeth ei wraig i'r drws**
**Ac meddai wrthyf i:**
**'O, 'ngwas i, 'ngwas i, mae o'n torri glaswellt heno, heno;**
**'Ngwas i, 'ngwas i, mae o'n torri glaswell heno . . . heb y Flymo, heb y Flymo';**
**Ymunwch yn y gân, drigolion mawr a mân.**
**Mae'r Flymo ar goll o ardd y gân!**


GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio

★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

COFION. Rydym yn falch o ddeall fod Ada Jones, Ty'n Twll wedi dychwelyd gartref ar ôl cyfnod pur faith mewn gwahanol ysbytai. Ein dymuniad yw y bydd yn cael adferiad iechyd yn fuan iawn. Dymuna Ada ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a ffrindiau oll am y blodau, cardiau ac anrhegion ariannol a dderbyniodd yn ystod y chwe mis a dreuliodd yn Ysbyty Walton, Lerpwl; Ysbyty Gwynedd, ac Ysbyty Gobowen.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Ar y Sul olaf o Fehefin daeth aelodau a phlant eglwysi Dosbarth Deiniolen ynghyd i Gapel Brynrefail i'r cyfarfodydd a gynhelir yn flynyddol dan nawdd Cymdeithas y Beiblau. Cafwyd cynrychiolaeth ardderchog o saith o Ysgolion Sul y Dosbarth yng nghyfarfod y prynhawn – Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun; Ysgol Sul Bosra, Penisarwaun; Ysgol Sul Undebol Deiniolen; Eglwys Crist Llandinoriwg; Ysgol Sul Dinorwig M.C.; Ysgol Sul Sardis, Dinorwig; ac Ysgol Sul Brynrefail a'r plant i gyd yn gwneud gwaith canmoladwy iawn.

Llywydd cyfarfod y pnawn oedd Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog ac roedd y gwasanaeth dechreuol, ar y thema 'Beth yw'r Beibl?', yng ngofal Amy Lambert, Elen Williams, Dylan Davies, Caryl ac Awen Jones a Rhian ac Anna George ynghyd â thair o'r rhieni, Mair Davies, Eleanor Jones ac Ellen George ac wedi eu hyfforddi gan Lowri Roberts Williams. Trefnwyd arddangosfeydd yn y capel y gydfynd â'r thema. Yn ddiweddarach yn y cyfarfod roedd yr un aelodau o Ysgol Sul Brynrefail yn cymryd rhan mewn dramodig wedi'i seilio ar stori o Zimbabwe.

Daeth cynulliad da i'r Gymanfa Ganu yn yr hwyr dan arweiniad Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed a Gareth Jones, Llanberis wrth yr organ. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Aelodau o ddosbarth Ysgol Sul yr oedolion ym Mrynrefail oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol. Gan fod eleni yn flwyddyn dathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Achos ym Mrynrefail, paratowyd sgript fer yn cyflwyno nifer o argraffiadau o'r cyfnod cynnar gan Lowri Roberts Williams ac yn cymryd rhan gyda hi yn y cyflwyniad roedd Ifanwy Jones, Jennie A. Roberts, Gwyn Hefin Jones a Richard W. Evans. Yn ystod y Gymanfa cafwyd cyfraniad gan Gôr Meibion Dinas Bangor dan arweiniad Barry Wynne. Rwy'n siŵr fod ein diolch yn wresog iawn eleni eto i Nansi Jones, Penisarwaun am drefnu Sul sydd yn un mor arbennig yng nghalendr blynyddol Eglwysi Cylch Deiniolen.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Nos Iau, Gorffennaf 9fed, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri a daeth cynulliad da ynghyd. Roedd y myfyrdod dan ofal Alice Williams. Cadeirydd y noson oedd Mrs Verna Jones, Meillionen. Croesawodd y siaradwr gwadd, sef Anna Jane Evans, sy'n enw cyfarwydd o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, wedi graddio mewn diwinyddiaeth ac wedi bod am gyfnod yn weithiwr ieuenctid yn Nwyrain Morgannwg a bellach wedi ymgymryd â swydd gyffelyb yn Noddfa, Caernarfon. Y llynedd bu yn Hong Kong a Tseina fel aelod o ddirprwyaeth o Gyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon. Hanes y daith honno yn ei gwahanol agweddau a gafwyd ganddi yn cael ei gyflwyno yn ddiddorol ac addysgiadol gyda llawer lygedyn o hiwmor. Roedd pawb yn falch o'r cyfle drwy ei hymweliad i ddod i wybod mwy am sefyllfa a chyflwr yr Eglwys yn y rhan hon o'r byd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am ei hadroddiad gan Mr Norman Williams. Cafwyd gair o ddiolch ac o werthfawrogiad am lwyddiant gwaith Lowri P. Roberts Williams fel arweinydd Cymanfa Henaduriaeth Arfon a gynhaliwyd yng Nghapel Coch, Llanberis, nos Sul, Gorffennaf 5ed, gan Mrs Betty Owen, Tros yr Afon. Roedd lluniaeth wedi'i baratoi gan Mrs Megan Jones, Greuor Villa a Mrs Eleanor Jones, Na Nog. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 17eg, pryd y disgwylir Mr James Griffiths, Bangor i roi sgwrs.

PROFEDIGAETH. Mae ein cydymdeimlad yn gywir â Mr Glyn Owen, Tros yr Afon mewn dwy brofedigaeth a ddaeth i'w ran yn ddiweddar a hynny o fewn pythefnos i'w gilydd. Bu farw ei chwaer, Mrs Annie Owen a Mr Hugh Humphreys, priod ei nith, ym Mhensarn, Ynys Môn.

COFION. Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc a Mr Norman Williams, Godre'r Coed sydd wedi treulio cyfnodau byr yn Ysbyty Gwynedd; ac i Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog fydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd maes o law.

LLONGYFARCH. Pleser yw llongyfarch Mr a Mrs Glyn Owen, Tros yr Afon ar ddod yn hen daid a nain am y tro cyntaf. Ganed mab, Siôn Glyn i Marian a Martin ym Mhen-y-groes. Llongyfarchiadau iddynt hwythau.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i Mrs W. H. Griffith, Llys sydd wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Manceinion. Brysiwch wella.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cafwyd noson arbennig o dda yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r gangen pryd yr aeth nifer helaeth o'r aelodau i Theatr Gogledd Cymru yn Llandudno i weld perfformiad o'r sioe 'Joseph'. Cynhelir cyfarfod mis Medi yn y Festri nos Fawrth y 15fed pryd yr arddangosir Gwaith Gemau gan Jan Daniels.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Bydd trefn oedfaon mis Medi fel a ganlyn:

6: Mr Evan Jones, Bontnewydd (5.30)
13: Parchg Alwyn Roberts, Tregarth (5.30)
22: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (10)
27: Parchg Dilys Myfanwy Davies, Y Felinheli (5.30)



*Rhieni a phlant yr Ysgol Sul yng ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau.*



*Côr Meibion Dinas Bangor yn cyfrannu at y Gymanfa Ganu ym Mrynrefail.*


**Y FFYNNON IACHÂD**

**Iacháu trwy arddodiad dwylo**

Bydd Sesiynau preifat yn 35 **STRYD Y DŴR, PENYGROES** (Meddygfa Dr Thompson) bob wythnos ar brynhawn **Llun a Mercher o 2 p.m. - 5 p.m. o 7 Medi ymlaen.** Y gost fydd £10, i'r cyflogedig a gostyngiadau i bensiynwyr a'r di-waith.

Am fwy o fanylion ac apwyntiad rhowch ganiad i **AWEL ar (01286) 880190.** Bydd y Ffynnon yn cyfarfod fel arfer yn y Neuadd Goffa, Penygroes bob nos Fercher am 6.30 p.m.

**Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol**



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
**CHWI** yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

**AVW** YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: (01286) 675175 a 677858**

# WAUNFAWR

**Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570**

**Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556**

LLONGYFARCHWN Valerie Roberts, 10 Bryn Golau am fod yn fyfyrwraig y flwyddyn yng Ngh);oleg Menai.

LLWYDDIANT ARHOLIADAU. Llongyfarchiadau i holl bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgol a choleg. Dymunwn yn dda i bob un yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion yr Ysgolion Sul ar dderbyn tystysgrifau am ddysgu adnodau ac emynau.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchwn Nia Williams, Plas Bodhyfryd ar lwyddo yn arholiad gradd 1, piano; ac i'w chwaer, Siân ar lwyddo yn arholiad gradd 2; ac i Gwion Tomos, Ty'n Llain ar lwyddo yn arholiad gradd 1, piano. Da iawn chi, a daliwch ati.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Caroline a Dave, Pen-rhiw ar enedigaeth merch fach, Tesni Haf, chwaer fach i Caryl.

Ganwyd mab, Dafydd, i Martin a Belinda, Teras Eilian, brawd bach i Dion ac ŵyr bach i Dic a Gwendoline Rowlands, 5 Bryn Golau.

Ganwyd merch fach, Megan, i Jennifer a Julian, Angorfa, chwaer fach i Becca.

Merch fach, Sophie, a anwyd i Beverley a Jonathan, 19 Stad Tŷ Hen, chwaer fach i Ryan.

Daeth Mildred a Trevor Beech, Bronallt yn nain a thaid unwaith eto — gnwyd merch, Elisha, i'w merch Susan a'i phriod Jeff, chwaer fach i Ethan.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd i gyd a chroeso mawr a phob bendith i'r rhai bach.

DATHLU PEN-BLWYDD. Yn ystod yr wythnosau diwethaf dathlodd Lowri Huws, Argoed; Jonathan Eagles ac Amber Waugh, 3 Tan y Capel eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r tri ohonoch.

Bu Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian yn dathlu ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr ichi ac rydym yn falch o glywed eich bod yn gwella wedi ichi gael damwain yn eich cartref.

DYMUNO'N DDA. Croesawn Colin a Judy Jenning i'r Siop a'r Swyddfa Post, gan ddymuno'n dda iddynt yn eu menter newydd.

Dymunwn ymddeoliad hapus i Allen ac Anne Addison. Dymuna Anne ac Allen ddiolch i'w holl gwsmeriaid a ffrindiau am eu caredigrwydd dros y deng mlynedd ddiwetha. Bydd yn chwith mawr ar eich ôl. Diolch yn fawr i bob un ohonoch.

Dymunir yn dda i bawb sy'n cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd yn ystod y dyddiau nesaf.

Dymuniadau gorau i Evelyn Anderson, Stad Tŷ Hen ac i Eurwyn Williams, Parc. Mae'r ddau wedi ymddeol o'u gwaith yn ffatri Ferodo wedi blynyddoedd maith o wasanaeth.

Dymunwn yn dda i Deian Elfryn, Coed Gwydryn fel drymiwr i'r grŵp Moniars. Rhaid hefyd ei longyfarch ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol — daeth y grŵp a ffurfiodd Deian yn gydradd gyntaf yn eu cystadleuaeth a derbyniodd yntau wobr am y cerddor gorau yn y gystadleuaeth.

Braf oedd gweld yr hen grŵp Beganîfs yn ôl ar y teledu o'r Eisteddfod o dan eu enw newydd — 'Big Leaves'.

CROESO i'r teuluoedd a ymgartrefodd yma yn ddiweddar a chroeso'n ôl i Nia Llwyd a'i phriod.

CYDYMDEIMLO. Ddechrau'r haf collodd Mr Dafydd Morris, 2 Bryn Golau ei chwaer a chydymdeimlwn ag ef yn ei brofedigaeth.

A hithau bron a chyrraedd ei 90 oed bu farw mrs J. M. Spark, Tremnant. Anfonwn ein cydymdeimlad i'w mab a'i merch, Brian a Marian.

Yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun yn 95 oed bu farw Miss J. Jones, Bryn Tirion gynt. Cydymdeimlwn â'i theulu yn ddwys iawn.

Cydymdeimlwn ag Anwen ac Oscar yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Annie Evans, Glaslyn gynt.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Glenda Williams, Cros, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr Raymond Williams.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Miss Bessie Jones, 1 Tref Eilian a fu farw'n dawel yn Ysbyty Eryri yn 91 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn â Mr Peter Marston, Blaen y Nant yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad iechyd i'r rhai o'r pentref fu yn yr ysbyty — Mrs Doris Roberts, Dwyros; Miss Marian Wyn Jones, Foel; Miss Eira Wyn Roberts, Llwyn Celyn; Mrs Helen Jones, Stad Tref Eilian; Mrs Pritchard, Stad Tref Eilian; Mrs Doreen Parry, Stad Bro Waun; Mr B. Henderson, Bryn Gwynedd; a Mr Eric Jones, Stad Tref Eilian.

Anfonwn ein cofion at baqwb sydd ddim yn dda eu iechyd ac yn gaeth i'w cartrefi.

Gobeithio fod Elin Huws, Argoed yn well wedi iddi dorri ei braich.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Don Roberts, Stad Bro Waun ac at Mrs Menna Rowlands, Ty'n Coed sydd yn derbyn triniaethau mewn ysbyty ar hyn o bryd. Brysiwch wella.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Aeth aelodau'r Gymdeithas ar daith i hen gartref Elis Wyn o'r Las Ynys yn ystod mis Gorffennaf. Yn ystod yr ymweliad cafwyd cyflwyniad rhagorol o rhan o waith Elis Wyn gan Mr Iolo Huws-Roberts a pheth o hanes y cartref gan Gina Gwyrfai a Dafydd. Wedi'r ymweliad aethom ymlaen i Caffi'r Plas, Harlech am bryd o fwyd ac roedd pawb i'w weld wedi'u plesio'n fawr! Diolchwyd i Mrs Catherine Jones a Mr John Roberts am drefnu'r noson gan Mrs Margaret Owen.

ARWYDDION. Yn ôl y Cyng. Eurig Wyn bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod ar gyrrion y pentref: 'Waunfawr, Gyrrwch yn Ofalus' a chaiff paent brown ei baentio ar y ffordd i arafu'r drafnidiaeth trwy'r pentref.

ANTUR WAUNFAWR. Bydd Ras Antur Waunfawr yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 26 Medi gan gychwyn o'r Ganolfan am 2 o'r gloch. Bydd ras 10k a Ras Hwyl. Dewch draw am bnawn o hwyl — bydd yno stondinau a chaffi.

Dymunwn yn dda i Idris wedi'i waeledd yn ddiweddar.

CYFARFOD CYHOEDDUS. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn estyniad newydd Y Ganolfan nos Fawrth, 15 Medi, am 7 o'r gloch i drafod camddefnyddio cyffuriau. Bydd yr Heddwas Ian Williams yn bresennol.

YSGOL WAUNFAWR. Ddiwedd y tymor fe gyflwynwyd y tarianau blynyddol a'r enillwyr oedd — Fiona Nesfield enillodd y darian am y cywaith gorau ar y thema 'Cwpan y Byd'. Jasmin Allen a enillodd y darian gerdd am y cerddor a gyfrannodd fwyaf i waith cerddorol yr ysgol. Enillodd Osian Owen y gwpan ymdrech am yr ymdrech fwyaf i wella ei waith ym mhob maes. Dianne Jones a Carwyn Rowlands a enillodd y darian mabolgampau am nifer fwyaf o bwyntiau yn adran y merched a'r bechgyn.

CLWB 300. Enillwyr diweddar y Clwb oedd — Mehefin: £40 Alan Owen, 9 Tŷ Hen; £25 Gladys Greasley, Minafon; £10 Mrs Olwen Owen, 18 Tref Eilian. Gorffennaf: £40 Dr Prys Jones, Pant; £25 Mrs Delyth Jones, Tan-y-coed; £10 Mrs Pat Parry, Bron Llewelyn, Groeslon. Awst: £40 Mr Bryn Griffith, Gorffwysfa; £25 Mrs Cadi Jones, Nant; £10 Mr J. Cotton, 12 Tŷ Hen.

## Colli Eirian

Roedd gan y bardd-weinidog Eirian Davies, a fu farw yn ystod mis Gorffennaf, gysylltiadau anuniongyrchol ag ardal yr Eco. Yn gynnar yn ei yrfa fu 'ar brawf' i fod yn weindiog capeli Brynrefail a Chwm-y-glo, ond mynd yn weinidog i un o eglwysi'r De a fu ei hanes, ond serch hynny holai ei gyfaill, Rol Williams, yn gyson am yr ardal a'r cyfeillion oedd ganddo yn y fro ac yn Waunfawr.

Bu ef a'i briod, y ddiweddar Jennie Eirian, yn beirniadu yn Eisteddfod y Waunfawr pan oedd yr eisteddfod honno yn ei bri. Bu Eirian hefyd yn un o bregethwyr cyson Cyfarfod Pregethu'r Waunfawr — cyn dymchwel capel Bethel. Ef hefyd, ynghyd â'r Parchg Athro Harri Williams, a wasanaethodd ym mhriodas Gwenlli a Rol yn y capel hwnnw.

Fel y dywedodd Gwyn Erfyl, 'pan fu farw Eirian fe gollodd Cymru fymryn o'i lliw'.


**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**




**Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill**

**Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun**
**Ffôn: (01286) 871833**

**DAFYDD OWEN**
**TRYDANWR**
Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron

National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
Aelod o'r NICEIC
APPROVED CONTRACTOR

**11 Rhes Faenol**
**LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 871680**



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**ffôn: (01286) 650349**
**(0589) 899901**


**CARPEDI GERAINT OWEN**
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR **(01286) 650552**



**SLIM CHWIM MEWN DIM!**
**heb lwgu na chwysu**
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
**CREDWCH! HOLWCH!**
**ffonlwch (01286) 830609**
**— TENEUWCH —**
**SLIM CHWIM MEWN DIM!**

DYMA'R PLANT A ENILLODD WOBRWYON YR YSGOL GYNRADD Y LLYNEDD.


*Llongyfarchiadau mawr iddynt*




OSIAN OWEN
*Cwpan Ymdrech am yr ymdrech fwyaf i wella'i waith ym mhob maes.*



Y PLANT GYDA'R TARIANAU A'R CWPANAU I GYD.



FIONA NESFIELD
*enillydd y Darian Cywaith a'r enillwyr ymysg y blynyddoedd eraill yn yr Adran Gynradd.*



DIANE JONES a CARWYN ROWLANDS
*Tarian Mabolgampau am y mwyaf o bwyntiau i'r genethod a'r bechgyn.*



YASMIN ALLEN
*Tarian Gerdd am y cerddor a gyfrannodd fwyaf i waith cerddorol yr Ysgol.*


**GORSAF BETROL**
**Esso BERAN**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: (01286) 871521**
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

ANTUR
WAUNFAWR
**AR AGOR**
**Llun - Gwener**
**9.00a.m. — 4.00p.m.**
**Ffôn: (01286) 650 721**
**ANTUR WAUNFAWR**
**dewch draw am dro!**
★ Parc Natur,
★ Lle chwarae
★ Meithrinfa blanhigion
★ Siop a Chaffi
★ Gwasanaethau garddio, cefn gwiad a chadwraeth, a mân waith adeiladu
. . . pansies gaeaf a violas yn barod . . .
RHYWBETH AT DDANT PAWB — GALWCH I'N GWELD

**Royal Victoria Hotel**
**LLANBERIS**
Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig
Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau
Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul
Cwrw Felin Foel
**Ffôn: (01286) 870253**

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y SGWÂR LLANRUG**
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
**Ffôn: (01286)**
**672898** (dydd)
**676285** (nos)

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390**



*Y Frenhines Victoria, neu Rhiannon Jones, prif enillydd y wisg ffansi yng Ngharnifal Llanberis.*

PLAS PENGWAITH. Llongyfarchiadau i Mrs Christine Williams, Swyddog Mewn Gofal, ar ei llwyddiant yn ei gradd yng Ngholeg Llandrillo. Ar yr achlysur cyflwynwyd rhodd iddi ar ran ei chydweithwyr gan ddymuno pob lwc iddi i'r dyfodol.

Wedi dathlu eu pen-blwydd yn y Cartref y misoedd diwethaf y mae Mrs M. Munro, Mrs K. Jones, Mrs E. Parry, Mrs C. Hughes, Mr J. H. Williams, Mrs E. Liggins a Mr R. H. Jones. Roedd pawb wedi mwynhau ei ddiwrnod yn ei ffordd ei hun gyda pharti i bob un ar y dydd arbennig.

Wedi dod adref o'r ysbyty mae Mrs F. Ellis, Llanrug a Mr O. G. Jones, a dymunwn y gorau iddynt. Mae Mrs P. Jones yn yr ysbyty ac mae Mr D. J. Thomas yn Ysbyty Eryri yn cofio atynt ac yn dymuno gwellhad buan iddynt.

Diwrnod y Carnifal trefnwyd stondin cacennau a jam ar y cae a diolchwn i bawb a gefnogodd y stondin.

Dymuniadau gorau i Mr G. Roberts sydd wedi symud i Fethesda.

Ar ran pawb yn y Cartref hoffai Mrs M. Mathews ddatgan ei diolch i Mr I. Williams a'i deulu, Bethel, am eu rhodd o lun i'r Cartref er cof am ei fam, Mrs M. G. Williams, a fu yma gyda ni ym Mhlas Pengwaith. Mae'r llun i'w weld yn y lolfa.

Dymunwn wellhad buan i rai o'r staff sydd adref o'u gwaith ar hyn o bryd.

Mae Mrs Ann Edwards, ein Swyddog Cadw Tŷ, yn ein gadael a dymunwn pob lwc iddi i'r dyfodol.

Estynnwn groeso cynnes i Mrs L. Williams sydd yn dod atom o Blas Gwilym, Pen-y-groes.

LLONGYFARCHIADAU. Dymunwn longyfarch y disgyblion a'r myfyrwyr a fu'n llwyddiannus yr haf yma yn yr arholiadau TGAU, Lefel-uwch a choleg. Dymuniadau gorau i bawb ohonynt i'r dyfodol.

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN. Ennilwyr mis Gorffennaf oedd – £35: Mrs M. Griffiths, Llain Wen (186); £25: Mrs D. Williams, 18 Ffordd Tŷ Du (20); £15: Mrs Lambrecht, Fflat 65 Maes Padarn (192); £10: Mrs R. Jones, Tu Ucha'r Ffordd (220); £5: Mr J. Pike, 2 Bryn Hyfryd (37); Pelen eira – £50: Mr G. Owen, Maes Padarn (195); £50: Mrs R. Lampard, Tŷ Gwyn, Nant Peris (92). Llongyfarchiadau i chwi i gyda a diolch am eich cefnogaeth.

YSGOL. Pob dymuniad da i blant y pentref fydd yn cychwyn eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail y tymor hwn. Gobeithio bydd pob un ohonynt yn setlo ar unwaith yn eu hysgol newydd. Gobeithio bydd y plant bach fydd yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf yn setlo'n dda yn Ysgol Dolbadarn hefyd.

CAPEL JERUSALEM. Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach ddydd Mawrth, 4 Awst, dan lywyddiaeth Mr Bert Thomas, cafwyd sgwrs gan Mr Derek Jones am y drefn o gadw gwyliau a defodau ac addoli yn yr Eglwys Anglicanaidd. Cafwyd trafodaeth ymhellach gyda lluniaeth ysgafn.

KARATE. Mae clwb Karate newydd wedi cychwyn yn y Ganolfan yn Llanberis ers diwedd mis Gorffennaf. Bydd yn cael ei gynnal bob nos Iau o 7 tan 9 o'r gloch. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sara Roberts (01286) 870022.



GRETNA GREEN. Llongyfarchiadau i Keith Jones, 7 Rhes Cambrian a Iona Hardacker, Tal-y-bont, Bangor a briodwyd yn Gretna Green ar 29 Gorffennaf. Maent wedi ymgartrefu yn Nhal-y-bont. Dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH. Dymuna Keith a Iona ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Dymuna Glenys a Steven, 50 Dôl Elidir ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion a'r teulu ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Hanna Mary.

Dymuna Mrs Eunice Roberts, 15 Maes Padarn ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau oll am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed.

Dymuna Edryd ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn canlyniadau ei arholiadau Lefel-uwch.

Dymuna Mrs Megan Owen, 59 Fflatiau Maes Padarn ddiolch o galon i Moreen, John a gweddill y teulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyhniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Dymuna Gaynor Jones, 4 Glanrafon ddiolch i bawb yn Ysbyty Gwynedd ac i'r teulu a'r cyfeillion am y gofal a'r ymweliadau a'r cardiau a dderbyniodd tra'n derbyn llawdriniaeth clun newydd yn ddiweddar.

Dymuna Kelly Jones, Tu Uchaf Ffordd ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth fod yn un o forynion y frenhines yng Ngharnifal Llanberis eleni.

Y BAND. Roedd yn dda gweld aelodau ifanc Band Llanberis yn rhan o orymdaith y Carnifal yr haf yma. Roeddent hefyd yn arwain yr orymdaith yng Ngharnifal Nant Peris ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Llongyfarchiadau iddynt ac i'w hyfforddwr, Owain Tudur.


Y CARNIFAL. Unwaith yn rhagor cafwyd Carnifal hynod lwyddiannus ddiwedd mis Gorffennaf a llongyfarchwn aelodau'r pwyllgor a lwyddodd i drefnu rhaglen amrywiol eleni eto. Diolch iddynt am eu gwaith caled trwy'r flwyddyn er sicrhau diwrnod difyr a hwyliog i blant a phobl y pentref yn ogystal â llu o ymwelwyr o'r fro a thu hwnt.

JAM YN Y PARC. Dymuna Ian Viney o Westy'r Heights ddiolch am y gefnogaeth a roddwyd i'r sesiwn Jam yn y Parc a gynhaliwyd yno ddiwedd Gorffennaf. Diolch hefyd am y cydweithrediad a gafwyd gan y cymdogion. Gwnaed elw o £350 er budd Ysgol Feithrin Llanberis.



PRIODAS. Ddydd Gwener, 24 Gorffennaf, yng Nghapel Jerusalem, Llanberis priodwyd Ann V. Evans, 15 Stryd Fawr, Llanberis â David Bullock, 66 Stryd Carneddi, Bethesda. Maent wedi cartrefu yn 20 Ystad Coetmor, Bethesda. Dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH. Dymuna Olga, Valerie a theulu'r diweddar Owen David, 10 Tan-y-cae, Bethel (gynt o 11 Water Street, Llanberis) ddatgan eu diolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanrug a Waunfawr. Diolch hefyd i staff Ward Aran, Ysbyty Gwynedd a diolch yn arbennig i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaethau ac hefyd i Myrddin a Gwynfor am y trefniadau.



## DRAENOG



**Mae defaid yn bla ar y strydoedd . . . yn y gerddi . . . ac yn y tŷ. Mae gwraig o Lanberis wedi dod adref ddwywaith yn ddiweddar a chanfod dafad ac oen yn y parlwr ffrynt . . . mae'n amlwg bod gwell ganddynt *fryn teg* na mynydd garw.**


GWASANAETH TRYDANOL
ERYRI ELECTRICAL FRON DEINIOLEN
★ AIL WEIRIO
★ CAWODYDD
★ GOLEUADAU DIOGELWCH
★ LARWM LLADRON
★ CYNNAL A CHADW
(01286) 870858 SYMUDOL 0467 774 326

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

# NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390**



*Dafydd Pritchard a John Closs.*

YMRYSON CŴN DEFAID. Tri gŵr lleol enillodd pob dosbarth yn y treialon a gynhaliwyd ar 14 a 15 Awst. Enillydd y dosbarth agored oedd Glyn Roberts, Caernarfon a John Ryan Griffith, Tal-y-sarn a gipiodd yr ail ddosbarth. John Closs, Llanberis ddaeth i'r brig yn y dosbarth lleol ac fe gyflwynwyd iddo dri cwpan – Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa; Cwpan Gwesty Dolbadarn a Thlws Cwmni Tithebarn. Am yr eildro yn olynol aeth Tarian Gwesty Fictoria i Dafydd Pritchard, Nant Peris.

Dyma'r canlyniadau – dosbarth agored: 1, Glyn Roberts, Caernarfon (Jaff); ail ddosbarth: 1, John Ryan Griffith, Tal-y-sarn (Taff); Tarian Gwesty Fictoria am y gorau lleol yn y dosbarthiadau agored: Dafydd Pritchard, Nant Peris; dosbarth lleol (Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa): 1, John Closs, Llanberis (Bob), 2, Elwyn Williams, Penisarwaun (Spot), 3, Brian Owen, Nant Peris (Ben), 4, John Williams, Bethel (Jill), 5, W. O. Griffith, Lôn Glai (Sam), 6, Dafydd Pritchard, Nant Peris (Tomos). Enillwyd Cwpan Rhedwr Eryri i'r bugail gorau gan Medwyn Evans, Llanfachraeth (Lad) sy'n gapten tîm Cymru fydd yn cystadlu yn yr Alban y mis nesaf. Enillwyd Tlws Cwmni Tithebarn (gorau dros 50 oed lleol) gan John Closs, Llanberis.

Enillwyr y raffl oedd – 1, Awen, Beudy Mawr; 2, Jeff Jones, Caerfyrddin; 3, Dafydd Owen, 872021; 4, 871503; 5, Dafydd; 6, Julia Woad; 7, S. S. Waterson, Caernarfon; 8, R. Owen, Tŷ Isaf; 9, Mel, Wrecsam 823143; 10, Ifan Rol; 11, Paul Evans 650102; 12, 673796; 13, 676919; 14, 01407 710134; 15, C. Parry, Llanberis; 16, 881703; 17, Wyn Berry; 18, 872177; 19, 831243; 20, PS 1129.

Hoffai'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

CARNIFAL Y NANT. Dechreuodd wythnos y Carnifal gyda chystadleuaeth pŵl nos Lun, 20 Gorffennaf. Daeth nifer dda i gystadlu am darian goffa Selwyn Davies ond yr enillydd eleni oedd Melvyn Pritchard, Llys Awel yn dilyn ffeinal agos iawn yn erbyn John Ellis, pencampwr y llynedd.

Dilynwyd y noson gyda noson gwis ar y nos Fercher ganlynol. Eto, cafwyd ymateb dda gyda nifer o dimau yn cystadlu. Enillwyr y wobr o £20 oedd tîm John, Tony, Alan ac Elwyn a daeth tîm Genod Nant yn ail i gael bocs o win.


Hoffa aelodau'r pwyllgor ddiolch i Meirion Griffiths am drefnu'r cwestiynau ac i Llinos a Richard, Ty'n Llan am eu croeso a'u cyfraniad ar y ddwy noson – diolch. Enillwyd raffl noson y cwis gan – 1, Anne Courtney; 2, Sylvia Kelly; 3, Derek Grimnit.

Cynhaliwyd y Carnifal ei hun nos Wener, 24 Gorffennaf ym maes parcio'r pentref. Arweiniwyd yr orymdaith i'r maes gan fand pres Llanberis a dawnswyr Morris Llanberis. Roedd yn braf gweld cymaint yn cystadlu yn y cystadlaethau gwisg ffansi ac yn crwydro o gwmpas y stondinau amrywiol yn ystod cyfnod prin o heulwen. Hoffem ddiolch i'r beirniaid – y Parchg a Mrs Hughes, Mr Emlyn Baylis, Rhiannon, brenhines Llanberis a'i morynion, Gwenno, brenhines Nant Peris; ac i'r arweinydd y gweithgareddau, Mr Gwynedd Roberts, am eu cydweithrediad parod.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r gwisg ffansi: o dan 3 oed (Nant Peris yn unig): 1, Gareth Pritchard; 2, Kate Pritchard; 3, Elin Haf; (agored): 1, Kurt Hellfield; 2, Jessica Sibley; 3, Robat Henri. 4-5 oed (Nant Peris): 1, Rhys Parry a Miriam Pritchard; (agored): 1, Mared Meleri Morris; 2, Hannah Hellfield; 3, Alice Cumberton. 6-8 oed (Nant Peris): 1, Manon Pritchard; (agored): 1, Dafydd Emlyn Jones; 2, Elin Ann Morris; 3, Aled Rhys Williams. 8-11 oed (Nant Peris): 1, Bleddyn Jones a Gwen Thomas; (agored): 1, Rhiannon Jones; 2, Cannwyll; 3, Rhian Morris. 11+: 1, Ifan Jones a Ceri Morris. Oedolion: 1, Nel Jones; 2, Shirley ac Anne. Babi bochgoch: pawb yn gydradd gyntaf. Gliniau codog: 1, Alaw; 2, Stuart; 3, Michael. Het wedi'i haddurno: 1, Ceri Morris; 2, Einir Morris; 3, Mared. Y Mabolgampau – ras dan 5 oed: 1, Lowri, 3, Siân; 3, Robat. 5-8 oed: 1, Ian; 2, Alaw; 3, Lindsey. 9-11 oed: 1, Dafydd; 2, Ifan; 3, Rhiannon. Ras deircoes: 1, Rhiannon, Alaw a Stephanie + Sioned; 2, Iwan a Mathew.

Profodd y raffl yn boblogaidd iawn a hoffem ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd wobr i'r raffl neu'r tombola. Dyma'r canlyniadau: 1, Llinos; 2, Nicholas Welsby; 3, Bev Anwyl; 4, Rhiannon; 5, Eleri Williams; 6, Dion; 7, Maggie; 8, Helen; 9, Sheila; 10, Rhian Pritchard; 11, Diane; 12, 872562; 13, Olwen; 14, Susie Chan; 15, Nia; 16, Linda. Dyfalwyd pwysau'r oen yn gywir gan Ceinwen a dyfalodd Shirley Davies yn gywir faint o fferins oedd yn y jar a Rita roddodd yr enw cywir i'r tedi.

Diolch yn fawr i bawb a wirfoddolodd yn ystod y noson neu a gyfrannodd mewn unrhyw fodd. Aiff elw'r Carnifal eleni i Eglwys St. Peris a Chapel Rehoboth.



*Gwenno, brenhines 1998 a Chantelley brenhines 1997.*


Y Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.

Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener olaf bob mis**



MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys

Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

**Age Concern (Wales) Enterprises Limited**

Ffordd Santes Helen

Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

**01286 678310**

AGE Concern

INSURANCE SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

BETI A'I PHOBL. Braf oedd clywed llais Mr T. Elwyn Griffiths, Erw Wen ar y radio fore Sul yn ystod mis Gorffennaf. Bu'n sôn am Undeb y Cymry ar Wasgar a'i gysylltiad agos efo'r Undeb ers ei sefydlu dros 50 mlynedd yn ôl. Bu hefyd yn flaenllaw yn ystod y dathliadau ar Faes y Brifwyl ym Mhencoed.

DATHLU PEN-BLWYDD. Ers y rhifyn diwethaf o'r Eco fe ddathlodd Ceri Roberts, 10 Erw Wen ei phen-blwydd yn 21ain oed; a Gareth Griffiths, Annedd yntau wedi dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw.

NOFIO. Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Llyn Gele ar basio arholiad nofio.

DARLLENYDD BRWD. Roedd Mari Gwenllian Roberts, Cefn Rhos Isaf yn aelod o dîm Ysgol Gynradd Bontnewydd a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth cwis llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru eleni.

MARWOLAETH. Yn ddiweddar bu farw Sarah Janes Hughes, Bron Gwna yn Ysbyty Gwynedd wedi salwch byr. Roedd hi'n weddw'r diweddar Edwin Hughes a mam i Eirwen a William. Bu'n ffyddlon iawn i gapel y pentref a bydd colled fawr ar ei hôl yn y pentref i gyd — ffarwél Anti Sarah.

HER Y TRI CHOPA. Roedd Tim Lloyd, Bodawel sy'n aelod o dîm Awdurdod Tân Gogledd Cymru oedd y cyntaf yn y ras i gyrraedd copa Scafell Pike, Ben Nevis a'r Wyddfa. Cyfanswm yr amser ar gyfer teithio, dringo'r mynyddoedd a dychwelyd i lawr oedd 15 awr 9 munud. Tipyn o gamp! Codwyd £1000 at Apêl Hospis Dewi Sant yn Llandudno.

IS-LYWYDD. Yn ddiweddar etholwyd Arfon Williams, Y Wern yn Is-lywydd Undeb yr Annibynwyr.

Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Gorffennaf oedd — £40 John ac Anwen Pritchard, Glan Gors Newydd (38); £25 Heulwen Atkinson, Garreg Lwyd (25); £15 Marian Huws, Tŷ Mawr (73); £5 Adrian a Marie Williams, Glandŵr. Enillwyr mis Awst — £40 Chris Smith, Parc Glangwna (9); £25 N. Davies, 7 Tai Glangwna (47); £15 Dewi Jones, 13 Erw Wen (97); £5 Reg Chambers Jones, Hafod Wen (94). Diolch yn fawr am gefnogaeth yr aelodau newydd ac yn arbennig o ardal Rhos-bach, yn ogystal â'r aelodau ffyddlon.

PÔS MWNCI. Daeth addasu capel y pentref i fod yn addoldy a chanolfan gymdeithasol yn agosach ddiwedd mis Gorffennaf pan dorrwyd y 'goeden mwnci' ac mae'r llain adeiladu wedi'i gwerthu o'r diwedd. Ond nid 'coeden mwnci' mohoni ond pinwydd Periw (Peruvian pine). O gyfrif y cylchoedd tyfiant fe amcangyfrifir iddi gael ei phlanu tua 90 mlynedd yn ôl. Pwy a'i plannodd tybed?

CLERC CYNGOR CYMUNED. Penodwyd Dewi Jones, 13 Erw Wen yn glerc newydd Cyngor Cymuned y Waunfawr a Chaeathro.

GWIBDAITH Y WENNOL. Am yr ail flwyddyn yn olynol fe drefnwyd gwibdaith i Southport gan Bwyllgor y Cae Chwarae.



**Embaras — hwnna ydio. Sgotwr profiadol yn dysgu'r grefft i gyfail ar Lyn Dywarchen ac roedd hi'n ddigon drwg bod y dysgwr wedi dal dau bysgodyn a'r sgotwr profiadol wedi dal dim . . . OND . . gwaeth na hynny oedd iddo syrthio wysg ei gefn i'r dŵr wrth gamu allan o'r cwch. Choelia i fawr mai hwn fu'n cadw'r cychod ar y llyn yn Llanberis am flynyddoedd.**

## TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

DYMUNWN wellhad buan i Beryl Mai Jones, 3 Tai Tan y Coed sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenan Humphreys, Pant Bryngwyn ar basio arholiadau Lefel-A. Hefyd i Yvonne Templeman am ei llwyddiant hithau yn ei arholiadau TGAU. Pob lwc i'r ddwy ohonoch.

CROESO i Gwyn, Nia a Hannah sydd wedi ymgartrefu yn Bronant, Tai Minffordd. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon LLANRUG
Caernarfon
673513

## ADFYWIO BRO
## Arolwg Bro Waunfawr a Chaeathro

Dyma'r dyddiad wedi cyrraedd o'r diwedd! Wedi misoedd o waith caled mae copïau o holiadur Waunfawr a Chaeathro ar fin cyrraedd pob person 11 oed a throsodd yn y ddau bentref. Bydd criw o ddobarthwyr yn dechrau ar eu gwaith yn ystod wythnos y 7fed o Fedi 1998. Bydd yr holiaduron allan am bythefnos gyfan a chofiwch os byddwch angen unrhyw gymorth bydd Eirian Pierce Jones, Swyddfod Adfywio Bro Gwyrfai yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr ar brynhawn Sadwrn 19 Medi 1998 rhwng 1 a 4 p.m. i gynorthwyo. Yna, bydd y gwaith casglu'n mynd yn ei flaen yn ystod wythnos yr 28ain o Fedi. Pe baech yn gorffen llenwi'ch holiadur cyn diwedd y pythefnos mae modd i chi ei adael mewn bocs yn siop y Swyddfa Bost yn Waunfawr neu yn y Garej yng Nghaeathro.

### PEIDIWCH Â CHOLLI CYFLE

Bydd yr arolwg bro yn gyfle euraid i chi, drigolion Waunfawr a Chaeathro, fod yn rhan o gynllunio'r dyfodol yn ogystal â gwella'ch bro. Drwy nodi eich syniadau am gyfleon newydd bydd modd creu cynllun pentref ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Cysylltwch ag Eirian am unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r arolwg neu os am drafod syniadau ar gyfer adfywio Bro Gwyrfai ar (01286) 650779 neu galwch i'w gweld yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr. Ymunwch yn y bwrlwm a gwnewch yn fawr o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

Ffframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
Secure in our protection — Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
NHBC
Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
GWERTHU - TRWSIO
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

# YSGOL GANOL DEINIOLEN



Anfonwyd y llun hwn gan Mrs Mary Evans, 6 Llwyn, Rhosgadfan. Gwelir ynddo ddosbarth Mr R. G. Williams, Caledffrwd, Clwt-y-bont, ysgolfeistr Ysgol Ganol Deiniolen yn 1935.

*Rhes gefn (o'r chwith o'r dde):* Willie David; John Idris; Bobby; Carys Jones; Beryle Noelle Williams; Mary Evans; Beti Wyn Parry; Myra Parry; Nansi; Nansi shepston; Rhiannon Roberts; Meiriona Price.

*Rhes ganol (chwith i'r dde):* Betty Hughes; Megan Parry; Nellie Parry; Gracie Griffith; Charlotte Fellows; Eileen Thomas; Lily Maud.

*Rhes flaen (chwith i'r dde):* Willie Dennis; Hugh David; Gwilym Owen; Gerald; Dennis Wyn; Harry Ifor; Gwilym Green; Gwilym Lewis; Alun Wyn; Owen; Harry Roberts.



*Manon Wyn Jones, brenhines Carnifal Deiniolen 1998 gyda'i morwyn Bronwen Phillipson.*



*Plant Ysgol Sul Unedig Deiniolen yn cymryd rhan yng nghyfarfod y Gymdeithas Feiblaidd yng nghapel Brynrefail yn ystod yr haf hwn.*

Cynhaliwyd dysgu noddedig er budd Action Aid gan aelodau Ysgol Sul Undebol Ebeneser ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Undebol Bosra, Penisarwaun. Treuliwyd pnawn difyr a chyfeillgar yn y festri ddydd Sul, Gorffennaf 6ed, yn adrodd, canu, cwis a gwylio fideo. Darparwyd lluniaeth ysgafn i bawb. Dymunir diolch i'r plant ac i'r rhieni a ddaeth i'w cefnogi ac i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd. Gwnaed elw o £141.62 tuag at Action Aid. Diolch i chwi blant am feddwl am eraill.

Y SEINDORF. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco ymddangos bydd y Seindorf wedi bod mewn cystadleuaeth bwysig iawn yn Harrogate, Swydd Efrog. Byddant yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Gwledydd Prydain am y tro cyntaf yn yr ail adran. Bydd y canlyniad yn y rhifyn nesaf o'r Eco. Pob lwc i'r Seindorf.

PLAID CYMRU. Enillwyr y Clwb 100 am fis Gorffennaf – £10 Mr T. A. Parry, Bro Dawel; £5 Mr Timothy Jones, Beran. Mis Awst – £10 Mrs Angharad Roberts, 29 Stryd Newydd; £5 Mr Glyn Richards, 5 Tai Caradog.

DIOLCH. Dymuna John a Mair, Terfyn, Rhes Marian ddiolch o galon i'r plant, perthnasau a chyfeillion am eu dymuniadau da ar achlysur dathlu eu priodas rhuddem yn ddiweddar. Diolch hefyd am yr anrhegion a dderbyniodd eu hwyres fach, Llio, ar ei dewis yn dywysoges Conwy. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Richard Williams, 61 Pentre Helen ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd tra roedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch hefyd i'r meddygon a staff Ward Conwy am eu gofal. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Mrs K. Jones, 25 Rhydfadog ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu'n cael llawdriniaeth yn diweddar. Diolch arbennig i'r meddygon a'r nyrsus yn Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

DIOLCH. Dymuna Mrs Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol ddiolch i'w chymdogion a'i ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei chwaer yn Birmingham.

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

LLONGYFARCHIADAU mawr i blant a phobl ifanc y pentref ar eu canlyniadau arholiadau dros y gwyliau. Dymunwn pob llwyddiant a hapusrwydd iddynt yn y colegau a swyddi newydd.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Iona Wyn Williams, Antmor, Bryn Moelyn ar ennill anrhydedd yng ngradd 8 mewn arholiad chwarae piano.

PEN-BLWYDD YN 90. Llongyfarchiadau i Mrs Gladys Jones, Y Dalar Deg ar gyrraedd y pen-blwydd arbennig yma. Cafodd ddathliad bendigedig gyda'i theulu a ffrindiau i gyd.


LLONGYFARCHIADAU i Gareth Jones, Gwelafon, Crawia ar ennill gradd B.A. (Anrhydedd), dosbarth cyntaf, Prifysgol Cymru yng Ngholeg NEWI, Wrecsam mewn cyfathrebu cynllunio (animeiddio).

DIOLCHIADAU. Dymuna Dylan Lloyd Jones, Llys Elen, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'w rieni, teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniodd ar ôl iddo gael ei ganlyniadau gradd o Aberystwyth. Diolch yn fawr iawn.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Anwen Morris, Gwenmon, Ffordd Bethel a'i theulu i gyd yn eu profedigaeth o golli ei mham yn ddiweddar. Hefyd â Mrs Olwen Hughes, Eithinog, Stad Glanffynnon a'i theulu hithau yn ei phrofedigaeth o golli ei mham; a Mrs Gaynor Williams, Penterfyn ar golli ei brawd ym Mangor.

DYMUNWN WELLHAD BUAN i bawb sydd wedi bod yn wael ac yn yr ysbytai, cofion gorau atoch i gyd.

LLONGYFARCHIADAU i Steven Wyn Jones, Fron Oleu, Bryn Hermon ar basio ei arholiadau yng Ngholeg Glynllifon. Hefyd i Owain Machno, Afallon, Bryn Moelyn ar gael ei ddewis i chwarae pêl-droed i Golegau Cymru yn Awstralia. Bydd yn gadael y wlad ar Hydref yr 11eg am dair wythnos gyda saith gêm wedi eu trefnu yn Sydney, Wollongong a Camberra. Pob hwyl iddo.



Llongyfarchiadau hefyd i Carolyn Williams, Y Berllan sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ei arholiadau terfynol i fod yn nyrs. Mae wedi ei derbyn yn adran y plant yn Ysbyty Gwynedd. Da iawn hi.

DIOLCH. Dymuna Mrs C. J. Evans, 3 Hafan Elan ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau hardd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Hefyd i Mrs D. Jones a Mrs E. Jones am edrych ar ei hôl ar ôl iddi ddod gartref. Llawer iawn o ddiolch i'r ddwy.

PLAID CYMRU. Llongyfarchiadau calonnog i un o aelodau ffyddlonaf y Blaid yn Llanrug ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Bu Mrs Gwladys Medwen Jones, Y Dalar Deg yn ysgrifennydd cangen Llanrug am flynyddoedd lawer ac y mae'n dal i ddod i gyfarfodydd y gangen.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Myrddin ap Dafydd a Llio, Hen Efail ar enedigaeth eu merch, Lleucu.

Ar nodyn tristach, estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Olwen Hughes, Eithinog ar golli ei mam.

THEATR BARA CAWS. Drama ddoniol, dreiddgar a thrist yw 'Bargen' sydd wedi'i seilio ar ddiwydiant y chwareli. Dyna fydd perfformiad cyntaf y tymor gan Bara Caws eleni a bydd Llanrug yn cael gweld y ddrama yn Ysgol Brynrefail nos Fawrth, Medi 29. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mrs Olwen Hughes, 14 Afon Rhos, Llanrug a'r teulu ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli mam a nain, sef Mrs C. J. Hughes.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**



*Rhai o bobl ifanc Capel y Rhos a gafodd eu derbyn mewn oedfa arbennig bore Sul, 5ed Gorffennaf. O'r chwith i'r dde: Nicola Edwards, Ceri Angharad Jones, Lisa Schudlack, Gwenno Williams, Gwenlli Mair Pugh, Sheila Owen.*

## EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

NOSON YSGRIFENNU (Bl. 3-9)

Nos Fercher, 23 MEDI 1998

rhwng 5.00 p.m. a 7.30 p.m.

yn FESTRI CAPEL Y RHOS

Cyfansoddiadau llenyddol yn yr adran 'Testunau eraill yn agored i bawb o fewn y pentref' ac adran Bl. 10-13 i'w hanfon i:

**Rolant Wynne**

**Fron Hyfryd Ucha, Ffordd yr Orsaf, Llanrug**

**erbyn nos Fercher, 23 Medi 1998**

## EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

**yn NEUADD YSGOL BRYNREFAIL**

**nos Wener, 9 HYDREF 1998**

**am 5.30 p.m.**

**DYDDIAD DERBYN CELF A CHREFFT:**
**NOS LUN, 5 HYDREF 1998**
**YN YR YSGOL GYNRADD**

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

# Atgofion am Gapel Pontrhythallt

Â minnau'n dathlu ym mis Awst ugain mlynedd dros oed yr addewid, rwy'n diolch am yr atgofion sydd gennyf. Rhodd Duw yw'r cof er mwyn i ni gael rhosynnau ym mis Rhagfyr! Deuthum i Lanrug i fyw yn 1917 wedi cyfnod o naw mlynedd yn Bontnewydd a Chaernarfon. Soniais o'r blaen am Ysgol Glanmoelyn. Cefais fy addysg yno, ond yng nghapel Pontrhythallt, sef Capel y Rhos bellach, y cefais fy ngwerthoedd. Gan i mi sôn cyn hyn am yr ysgol, rwyf am sôn y tro hwn am y capel a rhai o'r cymeriadau oedd yno yn 1917.

Eisteddai Dafydd Dafis, dyn duwiol iawn, yn y gadair dan y pulpud. Ni allai sefyll i godi canu gan ei fod yn dioddef o gricymalau andwyol ond byddai'n cadw'r amser i ni efo'i ffon. Roedd yn cymryd lle rhai o'r dynion oedd wedi mynd i ffwrdd i weithio ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Cododd siop sinc sydd erbyn hyn wedi ei dymchwel. Siop *ironmonger oedd hi, ac roedd ei* frawd yn cadw siop ironmonger Griffith Jones yng Nghaernarfon. Deallaf fod wyres iddo, merch ei ferch, yn byw yn Aberystwyth. Roedd yn chwith mawr i Gapel y Bont ar ei ôl ef a Mrs Dafis.

Y Parchg W. J. Roberts oedd yn gofalu am yr eglwys ar ran y Cyfundeb. Yr oedd wedi dychwelyd i'w hen ardal wedi cyfnod yn wedinidog yn Warrington. Yr oedd gennym ni'r plant barchedig ofn ato. Magodd ef bedwar o blant galluog iawn. Roedd yn ymweld â'r cleifion yn gyson. Tâl digon sâl a gâi gan y Cyfundeb am gadw Seiat, claddu a phriodi. Heddwch i'w lwch.

Rwy'n cofio rhai o flaenoriaid y Set Fawr. Yn y gornel eisteddai Robert Jones; Griffith Griffiths, Ddôl Helyg; a John Lewis Jones yr ochr arall, a Robert Lloyd Roberts, Bronallt. Roedd John Lewis Jones yn ddyn darllengar iawn.

*Mae rhai cymeriadau arbennig yn* aros yn y cof. Byddem ni'r plant yn mynd i'r Seiat a dysgu llawer wrth wrando ar y bobl hŷn. Un difyr am stori oedd Dafydd Huws, taid y Parchg Dafydd Owen, Caerdydd. Wrth adrodd stori, byddai'n dweud yn aml, 'O, diar mi,' a ninnau'n disgwyl am y geiriau. Cofiaf yn dda un o'i straeon: Gwraig eisiau croesi'r afon efo cwch a'r plant yn gwrthod yn lân â mynd i'r cwch a dyna ddyn y cwch yn troi ati a dweud, 'Ewch chi i mewn gynta ac mi ddaw'r plant wedyn'. Esiampl o'r fam yn bwysig iawn. Efallai erbyn mai'r plant sy'n arwain a'r fam yn eu dilyn. Tybe?

Yng nghornel y Sêt Fawr yn arwain y canu roedd John Morris Jones, tad Mrs Enid Whiteside Thomas, a theulu Hedsor Villa. Byddai'n ein dysgu ni'r plant efo'r Modulator yn y Band of Hope. Roedd hynny'n fendith fawr gan mai yno y dysgais ganu alto a darllen d.r.m. Byddem yn mynd i gôr plant Griffith Jones Minffordd, taid Arwel Hogia'r Wyddfa. Colled fawr ydi colli'r sol-ffa o gorau Cymru.

Yr oedd un cymeriad arbennig yn byw yn Stablau a'i enw oedd Twm Conwy gan mai oddi yno daethai i'r ardal. Ni chymerai ran amlwg ond ar ddydd Llun Diolchgarwch byddai'n dod ymlaen gan gychwyn ledio emyn o'i sedd yng nghanol y llawr a'i gorffen erbyn cyrraedd y Sêt Fawr. Byddai'n werth clywed ei fab, Robert David Thomas, yn darllen emyn hefyd. Nid oeddynt yn ddion blaengar iawn ond byddent yn cymryd eu rhan.

Rhan annatod arall o Gapel y Bont oedd teulu Green, Pandy — chwech o hogiau a thair merch — yn y capel fore Sul yn eistedd ar y seti croes yn ddel ac yn lân, a Richard Green, eu tad, yn frenin arnyn nhw. Chlywodd eu mam yr un o'r plant yn crio gan ei bod yn fyddar iawn. Roedd y plant yn amyneddgar iawn a gallai hithau ddarllen eu gwefusau a deall y sgyrsiau. Y mae dwy o'r teulu yn fyw o hyd, sef Mair a Jennie. Cofiaf un o'r blaenoriaid wrth groesawu'r tad wedi iddo fynd i ffwrdd i fyw a dweud mai Richard EverGreen a ddylai ei enw fod.

Yr oedd un cymeriad arall arbennig yn y Bont, sef Harri Barbar — un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul oedd o. Arferai gadw siop siafio a thorri gwallt yng nghegin ei dŷ — wrth ymyl fy nghartref. Dywedid ei fod yn ŵr goleuedig iawn yn ei Feibl. Byddai bob amser â sprigyn o Hen Ŵr yn ei gôt a roedd herc yn ei gerddediad. Roedd yn fy mhryfocio pan oeddwn yn blentyn, 'Mae dy enw di yn y Beibl, Gwladus'. Minnau'n taeru nad oedd hynny'n wir. 'Yr oedd gŵr yng Ngwlad-Us o'r enw Job!'

Byddai Griffith Pritchard yn chwarae'r harmoniwm drom, â doluriau ar ei fysedd. Roedd ôl hollti llechi yn y chwarel yn ei gwneud yn anodd iddo gyrraedd 'octave'. Roedd ganddo lais tenor arbennig o swynol a chofiaf fy nhad yn dweud wrthyf yn y capel unwaith — 'Gwranda ar GP yn canu, mae o fel pib'.

Bu gennyf amryw o athrawon Ysgol Sul dylanwadol iawn. Pan oeddem yn ein arddegau Mrs M. Lloyd Williams a'n dysgai. Roedd hi wedi ei chreu i ddysgu. Er nad oedd ond merch ifanc ei hun fe ddysgais *ganddi. Byddai'n trafferthu prynu* copi inni a rhoi gwaith cartref. Dyna lun un o'r dosbarthiadau y bûm ynddo. W. O. Pritchard, Bryn Gwenallt oedd ein athro.

Athrawes arall a ddysgodd lawer i ni yn y Band of Hope oedd Miss Laura Grace Owen, Isallt, yn canu, actio ac adrodd. Gwnaeth hithau ddiwrnod da o waith nes iddi golli ei hiechyd. Un o hen deuluoedd Llanrug ydoedd, sef teulu'r Fron Helyg, a adawodd eu hôl ar y pentre.

Ar wahân i ddysgu'r gwerthoedd gorau byddai gennym Eisteddfod lwyddiannus iawn bob Nadolig. Bu yma hefyd gwmni drama llwyddiannus am flynyddoedd a thrwy eu hymdrechion hwy y codwyd y festri bresennol.

A dyna ni, hanes yr Achos yn y blynyddoedd cynnar, a gobeithio fod y cyfan wedi gadael eu hôl arnaf erbyn hyn.

Hoffwn ddiolch yn fawr i gymdogion a chyfeillion o'r capel a fu'n ymweld â mi er pan wyf fy hun. Mae cael mynd i'r capel ar fore Sul yn rhoi boddhad mawr i mi.

Rhaid dweud, fel Dafydd Iwan, 'Rydw i yma o hyd!' ac rwy'n cyfrif fy mendithion bob nos.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# CWM Y GLO

**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

LLONGYFARCHIADAU i Margaret a Gwilym Williams, Bryn ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

Llongyfarchwn hefyd ieuenctid y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau gan ddymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

ADFERIAD IECHYD BUAN. Bu llawer o'r pentrefwyr mewn anhwylder yn ystod yr wythnosau diwethaf ac anfonwn ein cofion atynt gan ddymuno adferiad buan i bob un ohonynt.

DIOLCH. Dymuna Margaret a Cwil ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

YSGOL CWM-Y-GLO. Diolch yn fawr i Wanda a Delyth am drefnu'r helfa drysor a gynhaliwyd yn yr Ysgol ar Orffennaf 11. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y noson. Mwynhaodd pawb y sialens a chafwyd noson o hwyl a'r enillydd oedd Mari Owen, Dôl Afon, ac yn gydradd ail roedd Christine o Frynrefail ac Arwel a Sandra o Ddôl Afon ac fe aeth y wobr gysur i Ryan o Gwm-y-glo. Enillwyd y raffl gan Michael Llanrug; Mari Owen; Sandra Hughes; Chris Ruchi; Anthony Foulkes; a Leigh.

Ar ran y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon dymunwn yn dda i Wanda, Ian, Robert a Brendan sydd wedi ymfudo bellach i Sir Fôn. Diolch yn fawr ichi am ei gwaith caled a'ch cefnogaeth dros y blynyddoedd.







*Dyma luniau rhai o'r plant a fynychodd Noson Gwisg Ffansi yn Ysgol Cwm-y-glo. Cynhaliwyd y noson fel rhan o wythnos gweithgareddau Carnifal y pentref.*

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCHIADAU. Dymuna Llinos Angharad, Perthi, Bethel ddiolch o galon am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ennill gradd Prifysgol yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y diweddar Hugh Jones, Sycharth ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch am y rhoddion ariannol o £700 i Uned Haematoleg a Chronfa Cancr Gwynedd. Diolch hefyd i holl staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd am eu gofal caredig ac i'r Parchedig Gwynfor Williams am ei wasanaeth ac E. W. Pritchard, Llanberis am y trefniadau.

Dymuna John Pritchard a Valerie Owen, gynt o Llys Ieuan, Tre-gof, ddiolch o galon i hen ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli tad a mam mor agos at ei gilydd. Bu farw Harri Pritchard ar y 7fed o Orffennaf a Nesta Pritchard ar y 8fed o'r un mis. Diolch arbennig i'r Parchg W. R. Williams ac i Goronwy Jones, 12 Tan-y-cae am eu caredigrwydd.

CLWB 200 Y NEUADD. Dyma enillwyr am y tri mis. Mai: £20 Margaret Bardsley, Windy Corner; £10 Llinos Williams, Yr Hafod; £5 yr un i Carol Ann Jones, Penmaen, Saron; Huw Williams, Cefn Gwyn; Ann Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd; Glenys Thomas, Islwyn; Lynnwen Morris, Perthi; Gwyneth Price, Bro Eglwys; Nora Parry, 11 Tan-y-buarth; Iolo Davies, Ponciau, Llangefni. Mehefin: £20 Richard Parry, 14 Rhos-lan; £10 Oscar Evans, Sŵyn Eryri; £5 yr un i Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn; Llinos Williams, Yr Hafod; Eiriona Williams, 7 Bro Rhos; Gwyndaf Jones, Tŷ Gwyn; Manon Gwynedd, Cadnant; Hefin Jones, 7 Stad Eryri; Jean Hughes, Nefyn; Pat Jones, 15 Tan-y-buarth. Gorffennaf: £20 Alice Jones, Sycharth; £10 Evan Owen, Wern Las; £5 yr un i Gwyneth Williams, Llain yr Ardd; Freda Jones, Rhos-lan; Jack Foulkes, 6 Tan-y-cae; Julie Aston, Llys Awel; Wyn Evans, Parciau Rhos; June Owen, Cefn Ffrwd; Eryl Roberts, Bryn Rhedyn; Margaret Williams, Llanddwyn.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Morris, Treflys ar ei lwyddiant yn Chwaraeon Arbennig Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Enillodd Iwan ddwy fedal aur, pedair arian a thair efydd, sef pump ohonynt am nofio a phedair am fabolgampau.

LLONGYFARCHIADAU unwaith eto i ieuenctid y pentref ar eu llwyddiant mewn arholiadau yn yr ysgolion a'r colegau a dymunwn y gorau iddynt i gyd yn y dyfol boed hynny mewn ysgol, coleg neu waith.

SGIPIAU CYMUNEDOL. Bydd y sgipiau yn cael eu lleoli ar y safleoedd arferol o 8 Hydref felly ymlaen â'r clirio! Bellach mae cryn ddefnydd yn cael ei wneud o'r blychau ailgylchu a leolir gyferbyn â Chapel y Cysegr.

## Golygfa ddiarth yn yr ardal hon . . . defaid MEWN CORLAN!



*I gyfarch Colin Jones*

*Eilun, drwy herio'n unig, y bryniau*
*Gyda'u llethrau llithrig*
*Erys am hir dy orig*
*Yn gyffro bro, ar y brig*

Richard Lloyd Jones




**Yn yr ardd!**

**WIL G. ROBERTS**

**Bod Gwilym, Cwm-y-glo**

**Ffôn: (01286) 870674**

**GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL**

**Canolfan Addyg Barhaol**

Prifysgol Cymru · University of Wales BANGOR

**Ysgol Lenyddol y Faenol Fawr**

**Bodelwyddan** ***(olynydd i Ysgol Gregynog)***

*(gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru)*

**23 - 25 Hydref 1998**

**Thema: Mythau Cenedlaethol Mewn Llenyddiaeth**

Y darlithwyr: Dafydd Glyn Jones, Yr Athro Gwilym H. Jones, Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Yr Athro Hywel Teifi Edwards, Peter Lord, Angharad Price

Os hoffech fanylion pellach a/neu ffurflen gofrestru cysylltwch â Delyth Murphy (01248) 383761

PRIFYSGOL CYMRU BANGOR : HYBU RHAGORIAETH ACADEMAIDD



**Y GAMPFA**

**CANOLFAN IECHYD A FFITRWYDD**

(Perchennog: D. M. A. Lee)

**DEINIOLEN**

Ffôn: (01286) 872 240

**OSMOND SHAW**

**DEINIOLEN**



GWERTHU - TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr

**(01286) 870545**

Os gallwch chi ddarllen hwn gallwch ddarllen

**Y CYMRO**

**Tanysgrifiaid**

**Dau fis am ddim**

**Wrth i chi dalu am Y Cymro drwy'r post i'ch cartref bob wythnos am flwyddyn**

**Dim ond £38.13 am flwyddyn**

(yn lle £45.76)

Neu £22.88 am chwe mis
Tanysgrifiad tramor yn £60.84(post awyr)

**Anfonwch Y Cymro i**

Enw. . . . . . . . . . . . . . .Cyfeiriad. . . . . . . .

Rhif Ffon. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Amgaeaf siec am £ . . . . .Cod Post . . . . . . . .

***Y papur modern sy'n rhan o'n traddodiad***

Y Cymro, Parc Busnes, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug,CH7 1XY.01352 707707

36594820 YC

## DYLANWADAU

Cefais bleser mawr o ddarllen erthygl Mair am 'Eunice'. Taniodd rhyw awydd aruthrol ynof i roi pin ar bapur ac anfon y cynnwys yn syth i'r Eco.

Gan fy mod i rhyw fis yn hŷn na Mair mae'n rhaid cyfadda mai 'hen begor' arall sydd yn cofio. Mi glywaf lawer ohonoch yn dweud — 'dim eto!' Os bydd hyn o sylwadau yn gweld golau dydd wel, beiwch olygyddion yr Eco.

Mae fy nyled i Eunice yn fwy o lawer na dyled Mair hyd yn oed. Diolchaf yn bersonol i Mair am ysgrifennu mor rhagorol a diffuant ar ran to honom fu dan ei dylanwad.

Y tro diwethaf i mi elwa o gyfeillgarwch Eunice oedd y Sadwrn cyn Sul y Blodau eleni. Cefais y pleser o gyfarfod â'r Tad Deiniol ar lan ei bedd a sgwrsio amdani. Llifai atgofion melys am Eunice a Bob, a chymaint o gymeriadau eraill a'm cysylltai â bore oes.

Am i mi oedi gyda'm sylwadau mae wedi dod yn amserol dros ben i mi gyfeirio at ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Ogwr eleni. Dyna un arall yr ydw i'n ddyledus iddo ac un arall o blant Llainwen — Gron Llwyn Du, Gronwy Owen, neu Goronwy! Bu'n brifathro Ysgol Gymraeg Pontrhydyfen am ugain mlynedd ac mae'n byw ym Mhorthcawl ac yn uchel ei barch yn y fro oherwydd ei gyfraniad i achosion da y fro honno. Bu'n cynnal Aelwyd yr Urdd ym Mlaenafon am flynyddoedd. Mae ei gyfraniad clodwiw i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar hyd y blynyddoedd wedi dylanwadu ar gannoedd o blant. Mae wedi bod yn weithgar gyda threfniadau Bro Ogwr a gall ymfalchïo yn ei gyfraniad at lwyddiant mawr yr Ŵyl. Mi fuasech yn synnu faint o bobl fydd yn sôn amdano pan fyddai'n deud mai o Lanbêr yr ydw i'n dod.

Lle dechreuai? Dyma un arall a roes oriau o'i amser i'r Aelwyd yn Llanber, yr un cyfnod ag Eunice. Roedd wrth law o hyd



*Goronwy Owen, ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr eleni.*

i'n hyfforddi a'n cyfarwyddo. Yn y llyfr diweddaraf o hanes Ysgol Brynrefail mae llun Gron ym mhob tîm — ffwtbol, criced, athletau, ac mi fyddai wrth ei fodd yn ein helpu ninnau i gystadlu. Âi a ni i ddysgu nofio a ninnau'n graddio o Bwll Bach i Bwll y Goedan, Ynys Felan ac uchafbwynt y gwersi, Pwll y Ffowndri! Aeth â ni i Langrannog a chael digon o waith cadw trefn arnom. Cofiaf gerdded y mynyddoedd gydag ef ac yntau'n enwi pob bryn a chopa. Cofio cerdded llwybrau cyhoeddus. Cofio cymryd rhan yn yr ymgyrch gwerthu llyfrau Cymraeg am y tro cyntaf — rhannu'r pentre yn rannau bach a phawb yn cymryd ei libart, a Gron yn mynnu fod tyddynnod y llethrau i gael eu cynnwys a minnau'n cael mynd efo fo — dyna ichi addysg!

Cefais fy ngalw i'r Fyddin fis Ebrill 1945 a Mam yn mynnu fy mod i'n mynd i ffarwelio i Lwyn Du a Gron yn rhoi llyfr cofiant Capten Scott imi. Tua'r amser hwnnw fu'n rhaid i Gron symud o fod yn athro yng Nghaernarfon i Lundain. Roeddwn innau'n ddigon agos i Lundain i gysylltu â Gron ac es yno i'w gyfarfod. Cymhellodd Gron fi i fanteisio ar fywyd diwylliannol y ddinas. Dyma restr o'r 'firsts', ys dywed y Sais: Tŷ Opera Covent Garden a gweld am y tro cyntaf ddwy opera; dwy ballet, a mynd i weld dwy ddrama yn y West End. Mynd â fi i'r Proms yn yr Albert Hall; yna i Twicers i weld Cymru yn chwarae Lloegr — y gêm rygbi gyntaf i mi ei gweld. Gallwn fynd ymlaen am oriau ac nid y fi oedd yr unig un o Lanbêr a dderbyniodd gymaint o bleser o'i adnabod. Hyn cyn fy mod yn un ar hugain oed.

Cysylltwn â Gron pan oedd yng Nghaerfyrddin, Porth Talbot, Porthcawl a pharhaf i wneud hynny. Mae'r rhod yn troi — mae fy merch yn byw yn y Barri ac fe fu Gron yn dysgu yno. Mae ei fab, Hywel, yn ddirprwy-brifathro yno.

Bu'n cyfrannu i'r Eco ac i 'Rhwng Gŵyl a Gwaith' ar y radio. Mae fy nghariad at Lanbêr, Cymru a'r pethe wedi eu plannu'n ddwfn ynof. Er fy mod wedi byw yng nghyffiniau Birmingham ers 1950 mae fy nyled i ffrindiau a chymeriadau bore oes, yn enwedig Gron ac Eunice (hwy oedd yn gyfrifol am i mi ddilyn cwrs i fod yn athro) yn llawer mwy na'r hyn yr ydwi wedi'i syleddoli. Heb rai fel Gron ac Eunice yn troi fy wyneb at y pethau da does wybod yn y byd ble y buaswn wedi cael fy hun!

EMRYS OWEN ('Rhen Em)


Ffair Hen Greiriau Ynys Môn
ar Faes Sioe Môn, Mona (ar yr A5)
dydd Sadwrn a dydd Sul, 3 a 4 Hydref 1998
ar agor rhwng 10 a.m. a 5 p.m. Mynediad £2
Ymholiadau: Gwyn Davies (0161 226 8286)
Cant o arwerthwyr yn arddangos pob math o hen greiriau
Bydd lluniaeth ardderchog am brisiau rhesymol

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291
Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

CYFEILLION YR YSGOL. Cynhaliwyd Sbri Haf ar ddiwedd y tymor a gwnaed elw o bron i £300. Bydd y Cyfeillion yn trosglwyddo'r elw i'r ysgol fel cyfraniad tuag at brynu cyfrifiadur newydd. Fe gynhelir nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen i dderbyn cefnogaeth ffyddlon y pentref eto'r flwyddyn nesaf.

EISTEDDFOD. Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Wener, Hydref 9fed. Bydd y noson yn dechrau am 6 o'r gloch ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn llu.

CYFARCHION HWYR. Llongyfarchiadau ar achlysur dathlu pen-blwydd yn 21ain yn ddiweddar i Nia Lewis, Penpwllcoch. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

YR YSGOL GYMUNED. Pob dymuniad da i chwi oll fel staff a disgyblion ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Dymunir pob hapusrwydd i aelodau newydd o'r staff ac i'r plant bychan sy'n dechrau eu gyrfa yn yr ysgol.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ystod yr wythnosau a aeth heibio. Da deall fod Eurwyn Jones, Camelot yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella i gyd.

PROFEDIGAETH. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf i Mrs Rowena Williams a'r teulu, Hyfrydle, Caernarfon (Llwyn Derw gynt) ar golli gŵr a thad annwyl, Peter Williams.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Gwen Griffiths a'r teulu, Tai Arthur ar farwolaeth sydyn ei thad, Huw Oliver Jones, Eryri, Llanrug ac yn enedigol o Tai Newyddion, Penisarwaun. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch.

LLWYDDIANNAU LU! Llongyferchir pob un ohonoch sydd wedi llwyddo yn yr amrywiol arholiadau yn yr ysgol a'r colegau a dymunir pob llwyddiant i chwi i'r dyfodol.

Daeth llwyddiannau lu i'r pentref bychan hwn yn yr amrywiol sioeau amaethyddol a gynhaliwyd a chipiwyd llawer o gwpanau gyda'r ieir, defaid, ceffylau a gwartheg. Mae'n amlwg fod gweunydd Penisarwaun yn go arbennig!



*John Eifion*

TENOR CENEDLAETHOL. Llongyfarchiadau brwd i John Eifion, Bryn Eglwys ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Ogwr a phob dymuniad da i'r dyfodol. Mae'r pentref hwn yn brysur ennill lle amlwg ar fap Cymru.



*Dafydd Du*

DAFYDD DU a Deiniolen Dafydd Du. Dim pob pentref all hawlio DAU Dafydd Du, ond mae gennym ni le i ymfalchïo yn ein Dafydd Du golygus, byrlymus a llwyddiannus o Gae Eboni a'r tarw newydd sydd wedi ei fagu yn Tyddyn Perthi ac a ddaeth yn llwyddiannus yn y Sioe Frenhinol gan ddod yn gyntaf ac yn isbencapwr yr adran. Mae Deiniolen Dafydd Du yn ŵyr i'r enwog Deiniolen Dewi a fu'n darw'r flwyddyn am dair blynedd yn olynol, a Dafydd Du, Ram Jam, yn fab i'r difyrwr a'r canwr Arwel, Hogia'r Wyddfa. Diolch Dafydd Du am dy raglenni bywiog ac am yr hwyl ar faes carafannau'r eisteddfod, a phob hwyl i'r ddau Dafydd Du i'r dyfodol.

DIOLCH. Cydymdeimlir â Mr Eifion Griffiths, 12 Llys y Gwynt ar golli ei frawd, Ieuan o Lerpwl. Dymuna Mr Griffiths ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad, yn gardiau, rhoddion ariannol a galwadau. Diolch yn fawr.

YSGOL SUL BOSRA. Diolchir i bob un o'r plant fu wrthi'n ddiwyd yn dysgu adnodau a phenillion ar gof er budd Action Aid. Cafwyd pnawn difyr ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Undebol Ebeneser yn festri Capel Ebeneser gyda pawb yn adrodd eu darnau dysgu, canu caneuon bywiog, cwis Beiblaidd yng ngofal Lean Parc Jones a mwynhau dwy fideo Feiblaidd. Darparwyd lluniaeth ysgafn i orffen y gweithgareddau. Diolchir i bawb a gefnogodd y weithgaredd hon a chasglwyd £141.62. Gobeithir trefnu gweithgaredd eto ar y cyd yn y dyfodol agos.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf ac Awst a'r enillwyr lwcus oedd — Gorffennaf: 1, Delyth Williams; 2, Megan Glyn; 3, Elinor Jones, Bron y Waun. Awst: 1, Wil Jones, 24 Bryntirion; 2, Myfanwy Parry; 3, Pat Larsen.

WYTHNOS O WEITHGAREDDAU. Cafwyd wythnos lwyddiannus yn y pentref rhwng Awst 24 a 30. I agor yr wythnos cafwyd sesiwn bingo yn Neuadd yr Eglwys gyda chefnogaeth dda gan y pentrefwyr a nifer o drigolion eraill o fro'r Eco. Mrs Helen Owen oedd yn galw a llwyddodd i lywio'r noson yn hwyliog iawn.

Ar y nos Fawrth cynhaliwyd gyrfa chwist o dan ofal Selwyn Griffith a braf oedd gweld Neuadd yr Eglwys eto'n llawn o bobl o bell ac agos.

Trefnwyd helfa drysor ddiddorol yn ardal Llanddeiniolen a'r Felinheli ar gyfer nos Fercher gan Mrs Margaret Christian a Mrs Roberta Griffith gyda nifer dda eto o bentrefwyr yn cystadlu'n frwd yn eu ceir. Ar ôl gorffen casglu'r holl gliwiau daeth yr helfa i ben yn nhafarn Y Bedol, Bethel.



*Aelodau Ysgolion Sul Ebeneser Deiniolen a chapel Bosra Penisarwaun a fu'n dysgu adnodau a phenillion er budd Action Aid.*

Bwriadwyd cynnal noson o fabolgampau ar y nos Fawrth ond oherwydd y tywydd gwlyb bu'n rhaid newid i nos Iau a da o beth oedd hynny gan iddi fod yn noson braf. O dan lywyddiaeth Mr David Phillips cafwyd rasus amrywiol gyda rhai o ieuenctid a rhai ychydig hŷn hefyd yn cystadlu.

Noson o chwysu chwartiau oedd hi nos Wener gyda twmpath dawns yn Neuadd yr Eglwys dan ofal Mr a Mrs Idwal Williams, Llanrug. Braf oedd gweld yr hen fel yr ifanc yn mwynhau eu hunain.

Ar y dydd Sadwrn cynhaliwyd carnifal ar faes chwarae'r Ysgol Gymuned a'r beirniaid oedd Mrs Gwenda Hughes, Bontnewydd; Parchg Ganon a Mrs Geraint Wyn Edwards, Cemaes.

O ddydd Iau hyd nos Sul bu gŵyl flodau yn Eglwys Santes Helen. Miss Mair Foulkes oedd yn gyfrifol am y trefniadau gyda nifer o aelodau'r Eglwys yn llunio arddangosfeydd ar amrywiol themâu ar siliau'r ffenestri. Yng nghefn yr Eglwys yn cydredeg â'r ŵyl flodau lluniwyd arddangosfa o hen atgofion o'r pentref gan Mrs Roberta Griffith a Huw Tegid.

Yn goron ar yr wythnos, ar y nos Sul, cafwyd cymanfa ganu o dan arweiniad Robin Jones, Bethel a'r organydd oedd Mr Cyril Williams, Caernarfon, a'r unawdydd gwadd oedd John Eifion Jones a chafwyd datganiadau gwefreiddiol ganddo.

Dymuna'r Parchg Tegid Roberts ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant yr wythnos o weithgareddau. Roedd yn brofiad hyfryd a chofiadwy, a phwy a ŵyr na jchawn rywbeth tebyg eto y flwyddyn nesaf.

PLYGU'R ECO. Erfynnir am wirfoddolwyr i blygu'r Eco yn Neuadd Eglwys Santes Helen, **nos Iau, 1 Hydref, o 5.30 ymlaen.** Diolch i chwi am eich cydweithrediad.



*Un o'r arddangosfeydd blodau hynod a welwyd fel rhan o'r Ŵyl Flodau a gynhaliwyd yn Eglwys Santes Helen.*

**LONDON GARAGE**

FIAT FIAT **CWM-Y-GLO** FIAT FIAT

**ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT**

**GORSAF PRAWF MOT**

**POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH**

**GWASANAETH ac ATGYWEIRIO**

**CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD**

**GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234**

**neu Ffacs: (01286) 870066**



**AR AGOR:**

**Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.**

**Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00**

# CARNIFAL PENISARWAUN



Y Plismon Simsan




Coco-nytars Hawaii Nine-O




Cyfraniad Carlo?



Prifenillwyr y Carnifal — Ciain ac Idan


**siop siarad S4C**

## Y safle ar y We lle y mae pawb yn gallu

*Cadw Mewn Cysylltiad*

*Y lle delfrydol ar gyfer . . .*

- ☆ *torri gair gyda pherthnasau sy'n byw dramor*
- ☆ *cyfathrebu â phobl ledled y byd*
- ☆ *cael hwyl wrth drafod a hel clecs*



## http://www.s4c.co.uk

**Delfrydol ar gyfer dysgwyr sydd eisiau ymarfer eu Cymraeg**

**Siop Siarad a oruchwylir**

S4C

# Clwb Pêl-droed Llanrug . . . Enillwyr Tarian yr Eco 1998



### TARIAN YR ECO

*(parhad o'r dudalen gefn)*

smotyn wedi iddo gael ei lorio. Yr esgidiau newydd yn cael bedydd llwyddiannus. Yn sicr, dyma chwaraewr dawnus iawn â'r bêl wrth ei draed. Cyn hanner amser roedd hi'n 3-0. Taran o ergyd gan Aled Roberts o 20 llath. Pum munud o'r egwyl daeth gôl i Lanberis. Cic o'r smotyn wedi i Saynor gal ei lorio. Y newydd-ddyfodiad Gwyn Jones yn rhwydo'n hawdd.

Roedd mwy o drefn ar Lanberis ar ddechrau'r ail hanner ond y bas olaf i'r blwch ddim yn effeithiol. Yna gôl flêr iawn i Lanrug. O gic gôl, y bêl yn mynd yn syth i Dilwyn John ac yntau'n rhwydo'n hawdd. Aled Roberts yn curo y 'trap' camsefyll i rwydo'r bumed i Lanrug, cyn i Nigel Philips rwydo ei drydedd gôl o'r gystadleuaeth gyda pheniad.

Y darian yn aros yn Eithin Duon y tymor hwn. Gobeithio y daw mwy o dlysau i'r pedwar clwb dros y tymor. Diolch i swyddogion y clybiau, y chwaraewyr a'r cefnogwyr am roddi cychwyniad cyffrous i'r tymo'r pêl-droed ym mro'r Eco.

Casglwyd £33 wrth y giât gan wneud cyfanswm o £92. Wedi talu costau, gwnaed elw o £50 a gyflwynwyd i gronfa Amgueddfa Antur Waunfawr. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

### RHEDWYR AR Y BRIG

*(parhad o'r dudalen gefn)*

Bencampwriaeth yn uchel iawn ac adnoddau ariannol Cymru yn brin. Cymharer, er enghraifft, â thîm Lloegr sydd wedi derbyn grant o £52,000 ar ddechrau'r tymor i gynorthwyo eu timau rhedeg mynydd. Bu tîm Lloegr yn ymarfer am dair wythnos yn yr Eidal cyn Pencampwriaethau Ewrop. Byddant yn ymarfer yn y Swisdir am dair wythnos cyn Pencampwriaethau'r Byd. Mae aelodau tîm Cymru ar y llaw arall yn gorfod twrio i'w pocedi eu hunain i helpu i dalu rhan o'r gost o fynd i Ynys Reunion. Oes yna noddwyr hael yn darllen hyn o lith?

Llongyfarchiadau i Gwynfor Owen, Llanrug, ac Alun Vaughan, Llanberis, ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn Reunion. Gobeithio y cawn adroddiad llawn am eu hymweliad â Reunion yn un o rifynnau nesaf yr *Eco.* Pob llwyddiant dros eich gwlad.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

## Pytiau'r Haf

★ Daeth mwy o gapiau pêl-droed i Eifion Jones o Lanrug wedi iddo gynrychioli Cymru yn rowndiau rhagbrofol Cwpan UEFA i dimau cenedlaethol dan 18. Chwaraeodd yn erbyn Gogledd Iwerddon ac Ejebestan. Yn anffodus ni lwyddodd Cymru i fynd heibio'r gemau hyn, felly ni fydd tiath i Sweden i Eifion yr haf nesaf.

★ Pencampwr Cymru a Phrydain. Ie, dyna'r safon y mae Eifion Williams y nofiwch amryddawn o Lanrug wedi'i gyflawni erbyn hyn. Dychwelodd o Sheffield â medal aur yn crogi yn fuddugoliaethus am ei wddf. Yn sicr dyma un i'w wylio yn y dyfodol ac un fydd yn haeddu pob cefnogaeth gennym fel ardal.

★ Bu'n gyfnod llwyddiannus i Iwan Morris, Treflys, Bethel. Bu'n cystadlu yn Chwaraeon Arbennig Cymru yng Nghaerdydd. Bu'n cystadlu ar y trac — yn unigol ac yn y ras gyfnewid — ac yna'n plymio i'r pwll nofio. Daeth gartref gyda helfa o naw medal — dwy aur, pedair arian a thair efydd. Daeth y ddwy fedal aur yn y pwll nofio — yn y rasus 50m yn y dull rhydd, a'r ras 25m ar y cefn. I gwblhau ei haf o fywyd iach fe ddewiswyd Iwan, yn un o bedwar o ddisgyblion Ysgol Pendalar, i fynd ar fordaith o amgylch Ynys Môn ac i Borthdinllaen. Noddwyd y fenter gan Trico. Mae Iwan yn cyfaddef ei fod yn hapusach yn y dŵr nag ydyw ar y dŵr!

### Rygbi Mini ac Iau

Wedi apwyntiad hyfforddwr newydd o Seland Newydd i arwain tîm Cymru yn ôl i'r brig unwaith eto, mae'n amser troi i roi sylw i rygbi yn Arfon. Mae Clwb Rygbi Caernarfon yn cynnig hyfforddiant ac ymarfer gyda hyfforddwyr cymwys ar gyfer yr adran iau (12-16 oed) gan ddechrau nos Fawrth, 8 Awst. Eleni bydd y timau o dan 14 a 16 yn cymryd rhan yng Nghyngrair Gogledd Cymru gyda taith i Iwerddon ar ddiwedd y tymor. Cynhaliwyd cystadleuaeth Gogledd Cymru dan 12 oed ar y Morfa ar 6 Medi.

Cynhelir sesiynau i hogiau a genethod rhwng 7 ac 11 oed ar nosweithiau Gwener, rhwng 6 a 7 p.m. ar Y Morfa, Caernarfon. Bydd croeso i aelodau newydd ac wrth gwrs i'r aelodau presennol.

### DRAENOG



**Tydi hi 'di g'eud ha' gwlyb dudwch? Ma hyd yn oed Draenog wedi bod angan ambarél. Ond roedd angan mwy nag ambarél arna i rhyw noson, a finna'n swatio yng nghysgod wal ysgol Gynradd Llanrug. Mi ddoth 'na gawod o law cynnas, cynnas yn un llifeiriant am fy mhen i, ac mi glywis i ddwy o genod ifanc yn deud rhwbath am Sbecsefars. Mi ddylia nhw wisgo sbecs y tro nesa i'm safio fi rhag cael y ffasiwn drochfa.**





**ELLIS WYN**

**SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .**

- **Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON**
- **Hefyd yn galw yn eich cartref**
- **Ffoniwch am apwyntiad**

**678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)**

# CROESAIR MEDI



ENW ..........................................................................

CYFEIRIAD ..................................................................

..................................................................................

**Mae'n fwy na thebyg fod y mwyafrif ohonoch wedi cael 1 ar draws o rhyw fath yn ystod y gwyliau, efallai mewn 12 neu 35 ar draws, 15, 21, 25 neu 29 i lawr.**

### AR DRAWS

5. Y twb sy'n un o'r pethau mwyaf cas gen i a nifer o bobl eraill (6)
9. Y Saesnes sy'n hoff o ffrwyth yr olewydden? (5)
10. Bod yn frwnt â rhywun er mwyn cael gwybodaeth (8)
11. Ffŵl y Wasg yn Nhalybont? (5)
13. Treth? Paid a siarad! (3)
14. Mae'r cwc yn eu defnyddio i wneud bwyd ynddynt (7)
17. Cadachau poced (8)
20. Niweidio mewn arch o Llithfaen (6)
23. '— — o hyd i wrando cri — Nesáu at Dduw sy dda i mi.' (3,3)
24. Dyna Alun yn feddw mewn mwy nag un iard wair (8)
25. Rhai sy'n gwneud y rheolau (7)
27. Drachefn (3)
28. Tu faes yn y Gogledd (4)
31. Ail adrodd (5)
33. Yr hyn a wna eryr wrth godi ei ysglyfaeth (8)
34. Y lliw a roir ar gymeriad un a gyhuddir (5)
36. Cwmnïau masnachol, megis siopau neu ffactrioedd (8)

### I LAWR

1. Caru Colin yn y llyfrau hanes (9)
2. Ar ei ben ei hun (4)
3. Un taeog o Holland? (6)
4. Hen ddarnau arian a wnaed allan o aur! (6)
5. Ci rhyfel, neu gath a chi dwyieithog (5)
6. Dyn o'r ochr arall i'r clawdd (4)
7. Teimlo'n flin am rywbeth a wnaed neu a adawyd heb ei wneud (7)
8. Ariandai (7)
16. Yr hyn a gedwir mewn 8 i lawr
18. Nid yn unig pobl sy'n mynychu tafarndai, ond pawb (5)
19. Mae fala drwg ar ddiwedd Mehefin yn afiach (5)
22. Y rhai _____, rhai sydd heb fwy o le ynddynt (7)
24. Lle i gadw nwyddau (7)
26. Rhodd i'r tlawd (6)
32. Cynnig rhedeg â'r bêl dros y llinell? (4)

## ATEBION GORFFENNAF

Ymddiheuriadau i ddechra — er nad arna i oedd y bai!! Yn gyntaf, 'O arch Llion' oedd y cliw a ffurfiais i i 27 ar draws, ond mae'n ymddangos fod cyfrifiadur y wasg wedi mynnu fod Llion yn anghywir fel lluosog 'llif', ac wedi rhoi 'llifogydd' yn ei le. Wrth gwrs, anagram hawdd o 'archollion' ydi 'o arch Llion'.

ac wedyn — Walter a ddrysodd yn 8 i lawr, ac nid Welter.

Y peth sy'n anhygoel ydi'r ffaith fod y mwyafrif helaeth ohonnoch wedi cael y ddau ateb yn gywir.

Derbyniais atebion gan Huw Tegid Roberts, Llanrug; Eirwen Roberts, Tregarth; Beryl Jones, Garndolbenmaen; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; M. P. Hughes, Clynnog; Janet Hughes, Pistyll; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Mabel Parry, Porthmadog; N. Hughes, Cwm y Glo; Mary Davies, Waenfawr; Mair Evans Caernarfon; Olwen Owen, Llanberis; Mair Jones, Pwllheli; Nansi Davies, Rhuthun; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; Moreen Lennon, Llanberis; Jennie Williams, Clynnog; Ceridwen Williams, Llanrug; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Mair Foulkes, Penisarwaun; Nan Owen, Llanberis; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw ac Eluned Jones, Pencaenewydd.

Yr ateb cywir a dynwyd allan o'r het oedd eiddo Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug LL55 4BU. Llongyfarchiadau mawr i chi a £5 mis Gorffennaf.

Does fawr o amser i chi gwblhau hwn cyn daw Eco mis Hydref ar ei sodlau, felly ati â chi ar frys. Gyrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun erbyn 22 Medi. Pob lwc.



# DYDDIADUR MEDI

**15. Mercher** **WAUNFAWR:** Cyfarfod cyhoeddus i drafod problemau camddefnyddio cyffuriau. Yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.
**BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched. Arddangosfa o waith gemau gan Jan Daniels yn y Festri.

**17. Iau** **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd yn Festri'r Capel yng nghwmni Mr James Griffiths, Bangor.

**21. Llun** **LLANRUG:** Cyfarfod cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa am 7 o'r gloch i drafod datblygu'r adeilad.

**23. Mercher** **LLANRUG:** Eisteddfod Bentref Llanrug — noson ysgrifennu Bl. 3-9, rhwng 5 a 7.30 p.m. yn Festri Capel y Rhos. Bydd yr Eisteddfod ar 9fed Hydref yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

**26. Sadwrn** **WAUNFAWR a'r ARDAL:** Ras Antur Waunfawr yn cychwyn am 2 o'r gloch o'r Ganolfan. Ras 10k a Ras Hwyl. Nifer o atyniadau eraill — dowch yn llu.

**29. Mawrth** **YR ARDAL:** Perfformiad gan Theatr Bara Caws (sy'n dathlu pen-blwydd 21 mlynedd ers sefydlu'r cwmni) yn cyflwyno'r ddrama 'Bargen' sy'n seiliedig ar wahanol agweddau o fywyd chwarelwyr.

## RHODDION

**£10: Mrs Olga Davies, 10 Tan-y-cae, Bethel.**
**£5: Mrs Megan Owen, 59 Maes Padarn, Llanberis. John a Mair, Terfyn, Deiniolen. Eifion Griffiths, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun. Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig. Mrs Jones Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug. Mrs Blodwen parry, 6 Bro Deiniol, Deiniolen. Keith a Iona Jones, 60 Bro Emrys, Tal-y-bont, Bangor. Mr Richard Williams, 61 Pentre Helen, Deiniolen. Gari Davies, Maes Derlwyn, Llanberis. Mrs Eunice Roberts a Mrs Helen Sharp, Llanberis.**
**£3: Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig. Mrs Iola V. Evans, 15 Stryd Fawr, Llanberis. Mrs H. Jones, 14 Stryd Tyrner, Llanberis.**

**PEIDIWCH A GORI AR STORI**
**anfonwch hi i *Eco'r Wyddfa***

## DRAENOG



**Y PRINS OF WALES MEWN DŴR POETH YN NINORWIG**

**Dyna, dybiwn i, oedd y stori nes sylweddoli mai tair stori am yr un person oedd wedi eu cymysgu â'i gilydd.**

**Un o ddosbarthwyr yr Eco ar ei wyliau dramor efo poen yn ei fol, yn ceisio egluro yn ei Saesneg-Sbaeneg ei fod angen rhyw ffisig . . . 'Si, senor, for the *hot water*'**

**Wedi cyrraedd gartref roedd angen mynd i Ddinorwig i nôl y rhifyn hwn o'r Eco. Gan na allai fynd ar y nos Iau, dyna fynd â'i wraig i Ddinorwig y noson cynt er mwyn dangos y ffordd iddi i'r lle diarth hwnnw. Hithau'n mentro yno ei hun y noson wedyn . . . a sylweddoli ei bod wythnos yn rhy fuan!**

**Ac yna trefnu trip bws o Lanberis i weld gêm bêl-droed Cymru yn Lerpwl. Pawb yn barod mewn da bryd wrth Westy'r Prins of Wales. Biti bod y creadur wedi anfon y bws i WESTY'R PRINS YNG NGHAERNARFON!**


**CANOLFAN FFITRWYDD P.C.**
**Hen Safle Marconi Waunfawr**
**(01286) 650011**
★ OFFER RHAGOROL ★
★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
★ CAWODYDD ★
★ TALU WRTH Y DRWS ★
★ DIM ANGEN CADW LLE ★
ORIAU AGOR:
11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau
PRISIAU:
1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

# CHWARAEON

## TARIAN YR ECO 1998



*Richard Lloyd Jones, golygydd chwaraeon Eco'r Wyddfa, yn cyflwyno'r darian i Alan Jones (capten Llanrug) a Kevin Davies y rheolwr.*

Fel y brawd a'r chwaer fach – Tlws yr Eco – mae'r gystadleuaeth hon wedi ehangu eleni. Croesawyd Waunfawr i'n plith ac felly cafwyd dwy gêm gyn-derfynol. Y Waun oedd yn croesawu Llanrug yn y gêm gyntaf. Rhaid canmol y cyfleusterau ym Metws Garmon. Yn amlwg mae tipyn o drefniadaeth oddi ar y cae. Braf hefyd gweld maes llai ar gyfer y timau ieuenctid drws nesaf i'r prif faes. Mae awgrym yma fod polisi pendant i feithrin a datblygu chwaraewyr lleol. Yn sicr, dylid gwneud yr ieuenctid yn rhan allweddol o'r clwb. Dyma wers y gallai rhai o'n prif glybiau ei dysgu.

**Waunfawr 1 Llanrug 3**

Roedd gan Llanrug chwaraewyr profiadol yn eu tîm ac yr oedd eu sgiliau cynhennid yn amlwg. Tîm ieuanc oedd gan Waunfawr gyda digon o frwdfrydedd. Mae amddiffyn trefnus gan y Waun ond mae diffyg creu yng nghanol y cael. Un o'u prif wendidau yw'r diffyg symud oddi ar y bêl. Gyda'r llinnell flaen yn statig roedd yn hawdd i amddiffyn Llanrug arbed yr ymosodiadau. Rwy'n siŵr y bydd Jeff Daniels, eu hyfforddwr brwdfrydig, yn rhoi cryn sylw i hyn. Stori arall oedd hi gyda Llanrug gyda Dilwyn John yn darganfod lle ar y chwith a Stewart Williams yn chwarae pasus deallus i ofod, daeth sawl cyfle. Gyda Wayne 'Keane' Owen yn gyrru 'mlaen yn ddiflino, dylid fod wedi sgorio mwy. Y mae'r hen wendid o roi'r bêl yn y rhwyd – mor amlwg y tymor diwethaf – yn dal i fodoli.

Llanrug aeth ar y blaen wedi 17 munud. Cic gornel fer a Michael Owen yn cael gormod o le i benio croesiad Aled Roberts i'r rhwyd o chwe llath. Prin iawn oedd ymosodiadau y tîm cartref a chafodd 'Arnold' yng ngôl Llanrug fawr i'w boeni. Roedd mwy o drefn ar Waunfawr ar ddechrau'r ail hanner – da iawn, Jeff. Daeth sawl hanner cyfle ond y diffyg profiad o flaen y gôl yn amlwg. Wedi 65 munud, ail gôl i Michael Owen. Troi yn gelfydd ar ochr y blwch ac ergyd i gornel y rhwyd. Rhywbeth yn yr enw tybed? Wedi 70 munud trydedd gôl i Lanrug. Rodney Roberts, a gafodd gêm 'brysur' yn derbyn pas gan Andrew Williams – hwn yn chwaraewr addawol – ac yn rhwydo o 15 llath. Ni ddisgynnodd pennau Waunfawr. Yn ôl a nhw, a'u gwobr oedd gôl orau'r noson wedi 77 munud gan Gareth Griffiths. Cryn grefft yn twyllo dau amddiffynwr ar y chwith ac yna ergyd i gornel y rhwyd o ongl lem. 3-1 ar y diwedd a'r ddau dîm yn falch o gael cyfle i asesu gobeithion. Diolch i Keith Owen am ddyfarnu ac fe wnaed casgliad o £17 wrth y giât.

**Deiniolen 2 Llanberis 2**

(Llanberis yn ennill 4-3 ar giciau o'r smotyn.)

Am gêm! Nid oes y fath beth â gêm gyfeillgar rhwng y ddau dîm yma. Os mai dyma safon y gemau a welwn yn lleol eleni yna fydd fawr yn achwyn. Roedd nifer o chwaraewyr profiadol ar y maes a dim dal yn ôl. Dechreuodd Deiniolen ar dân. Yn solad yn y cefn, creadigol yng nghanol y cae, a Dewi Williams a Paul Smith â chyflymdra ar yr esgyll. Roedd Saynor fel cawr i Lanbêr yn yr hanner cyntaf. Setlodd Llanbêr a chafwyd nifer o giciau cornel. Arf pwysig yw'r ciciau hyn ar gae cul Deiniolen. Daliodd yr amddiffyn cartref, dan oruchwyliaeth Dai ac Eifion Jones. Yna, wedi 35 munud, gôl i Lanberis. Y bêl yn rhydd yn y blwch a Nigel Philips yn derbyn yr hanner cyfle. Ymlaen â'r brwydro ond dim mwy o goliau yn yr hanner cyntaf.

Yr un oedd patrwm yr ail hanner. Deiniolen yn pwyso ond Llanberis yn beryglus wrth dorri. Wedi 70 munud, Darren Ellis yn unioni'r sgôr. Gyda'r dorf yn rhuo daeth ail gôl i'r tîm cartref o fewn munud. Tipyn o gôl oedd hon. Paul Smith – un o sêr y gêm – â rhediad gryf i lawr y chwith a tharan o ergyd i gwblhau'r symudiad. Oedd y deiliaid ar eu ffordd allan? Gêm ping-pong wedyn gyda'r bêl yn sgrialu o un pen i'r maes i'r llall. Yn ôl ddaeth Llanberis a Philips – y cyn-golgeidwad – yn sgorio ei ail gôl wedi 76 munud. Sawl cyfle i'r ddau dîm wedyn ond dim goliau. Rhaid canmol safon y ddau golgeidwaid a wnaeth sawl arbediad cofiadwy. Ymlaen at y ciciau o'r smotyn. Gan pwy oedd David Batty tybed? Gyda Deiniolen ar y blaen 3-1 ar un cyfnod, roedd buddugoliaeth gofiadwy o fewn eu cyrraedd. Nid felly y bu. Methodd y tîm cartref eu dwy gic olaf gyda Llanberis yn llwyddo bob tro. Y deiliaid yn fuddugol o drwch blewyn mewn gêm fuasai wedi gwneud rownd derfynol wych. Gall Deiniolen fod yn hyderus ar gyfer y tymor, os bydd John Williams yn llwyddo i gadw'r garfan hon. Rwy'n siŵr fod Iolo Evans wedi dysgu tipyn o'r gêm ac yn chwilio i gryfhau'r garfan. Diolch i'r dyfarnwr, John Baston, a gadwodd ei ben a chyfrannu at gêm gofiadwy. Fel arfer, roedd haelioni Deiniolen yn amlwg a chasglwyd £42 wrth y giât.

**Y ROWND DERFYNOL**

**Llanrug 5 Llanberis 2**

Daeth torf dda draw i Eithin Duon i weld gêm gystadleuol iawn. Cafwyd dechreuad da i'r gêm gyda Llanrug yn pwyso. Mae crop o ieuenctid addawol yn y clwb eleni ac efallai fod eu polisi o feithrin ieuenctid lleol dros y 'tymhorau llwm' am ddwyn ffrwyth. Surwyd ychydig ar yr achlysur gyda anaf i Cai Williams. Roedd yn rhaid ei gludo i'r ysbyty wedi anaf i'w benglin. Digwyddodd hyn ar derfyn rhediad nodweddiadol gryf ganddo. Cymhlethwyd problemau Llanberis wrth i Aeron Davies adael y maes gydag anaf i'w ffêr. Yn naturiol, chwalodd hyn unrhyw batrwm chwarae iddynt a brwydr i sefydlu unrhyw fath o batrwm fu gweddill y gêm iddynt.

Aeth Llanrug ar y blaen wedi 20 munud. Rhediad cryf gan Aled Roberts at galon yr amddiffyn, pas sgwâr a'r di-flino Wayne Owen yn rhwydo o 10 llath. Yn ddi-os Wayne oedd seren y gystadleuaeth a bydd yn aelod allweddol o dîm Llanrug y tymor hwn. 2-0 mewn ychydig funudau. Dilwyn John yn rhwydo o'r

(Parhad ar dudalen 22)

## Rhedwyr Mynydd ar y Brig

**Yn rhifyn Gorffennaf adroddwyd fod nifer dda o redwyr lleol yn debygol o ennill gwobrau yn ystod yr haf. Gwireddwyd y darogan a bellach gellir dweud mai ym mro'r *Eco* mae goreuon rhedwyr mynydd Cymru.**

Cafwyd diweddglo cyffrous i'r Gynghrair Rhedeg Mynydd gyda Colin Jones o Bontrug yn ennill y pedair ras ddiwethaf ac yn cipio'r Bencampwriaeth. Daeth Colin Donnelly o Ddinorwig yn ail. Yng nghystadleuaeth y merched, Jane Lloyd o Gaeathro ddaeth yn fuddugol gan ennill pob ras. Yn adran y dynion hŷn, Gwynfor Owen o Lanrug oedd yn fuddugol dros ddeugain oed, a Dafydd Thomas, eto o Lanrug, yn fuddugol dros hanner cant oed.

Roedd tri o fechgyn lleol yn cynrychioli Cymru yn Ras yr Wyddfa: Colin Jones, Pontrug; Trefor Jones, Llanberis, a Gwynfor Owen, Llanrug. Yn nhîm merched Cymru roedd Jane Lloyd, Caeathro gan orffen yn bedwaredd merch. Gyda Colin yn fuddugol, daeth Gwynfor yn drydydd dros ddeugain oed; Phil Jones, Penisarwaun yn gyntaf dros 45; a Dafydd Thomas, Llanrug yn gyntaf dros hanner cant oed.

Cynhaliwyd dwy ras bencampwriaeth yn ystod yr haf: Moel Siabod, sef ras olaf Pencampwriaeth Prydain, a'r ail yng nghyfres Pencampwriaeth Cymru; ac Elidir Fawr, y drydedd o rasus Pencampwriaeth Cymru. Rhedwyr lleol ddaeth i'r brig unwaith eto. Colin Jones oedd y Cymro cyntaf ar Foel Siabod, yn cael ei ddilyn gan Colin Donnelly. Daeth Trefor Jones yn wythfed a Dafydd Thomas yn ddegfed, gan ennill yr adran dros 40 oed a'r adran dros 50 oed. Roedd Dylan Jones o Ddeiniolen yn ddueddegfed. Yn drydydd ar ddeg roedd Tim Lloyd, gyda'i wraig, Jane, y ferch gyntaf o Gymru. Roedd hi'n aelod o dîm merched Eryri a ddaeth o fewn trwch blewyn i gipio'r fedal arian ym Mhencampwriaeth Prydain. Yn Ras Elidir daeth Gwynfor Owen yn bedwerydd (cyntaf dros 40 oed); Trefor Jones yn seithfed a Dafydd Thomas yn ddegfed (cyntaf dros 50 oed). Unwaith eto Jane Lloyd oedd y ferch gyntaf.

Mae dwy ras bencampwriaeth yn weddill — y Mynyddoedd Duon yn Ne Cymru a Moel Fammau — a siawns na welir rhai o redwyr y fro yn ennill un (neu fwy) o bencampwriaethau Cymru erbyn diwedd y tymor.

Yn y cyfamser mae Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd y Byd yn cael ei chynnal ar Ynys Reunion yng nghanol Cefnfor India. Mae Cymru yn anfon tîm yno — dynion a merched hŷn, a dynion a merched iau. Fel y gellir tybio mae'r gost o anfon timau i'r

(Parhad ar dudalen 22)